**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

[FEL Y'I DIWYGIWYD YNG NGHYFNOD 2]

## CYNNWYS

**RHAN 1**

CYFLWYNIAD

1 Trosolwg

**RHAN 2**

DATBLYGU TWRISTIAETH

2 Swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran datblygu twristiaeth
3 Cod ymarfer ar dwristiaeth
4 Diwygio deddfiadau ar dwristiaeth

**RHAN 3**

RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR

**PENNOD 1**

CYSYNIADAU ALLWEDDOL

*Llety ymwelwyr rheoleiddiedig*

5 Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig

*Ffitrwydd mangre llety ymwelwyr*

6 Ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr
7 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safon gyffredinol
8 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safonau penodol
9 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: atal tân
10 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw trydanol
11 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw o ran nwy
12 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: risg carbon monocsid
13 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: yswiriant

**PENNOD 2**

TRWYDDEDU

*Trwyddedau ac amodau trwydded*

14 Trwyddedau llety ymwelwyr
15 Amodau trwydded: cyffredinol
(4) At ddibenion y Bennod hon, nid yw erthygl 43 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) (atal dros dro delerau ac amodau trwydded) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw amod nac unrhyw ofyniad cymeradwyo (gweler adran 19) a osodir mewn perthynas â thrwydded llety ymwelwyr.16 Amodau trwydded: hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr
17 Amodau trwydded: amodau pellach

*Ceisiadau am drwydded: y weithdrefn*

18 Ceisiadau am drwydded: cyffredinol
19 Ceisiadau am drwydded: gofynion cymeradwyo
20 Ceisiadau am drwydded: dyfarnu
21 Ceisiadau am drwydded: asesiad pellach cyn dyfarnu
22 Rhoi trwydded llety ymwelwyr

*Trwyddedau: torri, unioni a dirymu*

23 Torri amodau trwydded: dirymu
24 Torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer

*Trwyddedau: dod i ben, adnewyddu a diwygio*

25 Trwydded yn dod i ben ac adnewyddu trwydded
26 Diwygio trwydded

*Trwyddedau: trwyddedau dros dro*

27 Trwyddedau dros dro

*Apelau*

28 Apelau trwyddedu

*Gorfodi*

29 Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol
30 Pŵer mynd i mewn ac archwilio at ddibenion gorfodi
31 Gwarant i fynd i mewn i fangre a'i harchwilio at ddibenion gorfodi

*Troseddau*

32 Llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre ddidrwydded: trosedd
33 Trosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth
34 Trosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol
35 Trosedd o rwystro'n fwriadol

*Swyddogaethau eraill Gweinidogion Cymru*

36 Dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas â thrwyddedu
37 Esemptiadau rhag gofynion trwyddedu
38 Ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr
39 Pwerau i rannu gwybodaeth
40 Darpariaeth arbennig mewn cysylltiad â safleoedd gwersylla a safleoedd carafannau

**PENNOD 3**

LLETY YMWELWYR RHEOLEIDDIEDIG: TELERAU CONTRACT

*Telerau contractiol a ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr*

41 Contractau llety ymwelwyr
42 Rhwymedigaeth gontractiol i sicrhau bod mangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr

*Cyfyngiadau ar y rhwymedigaeth i sicrhau bod mangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr*

43 Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: bai ymwelydd
44 Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: gwybodaeth DLlY

**RHAN 4**

DARPARU GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM LETY YMWELWYR

*Cyfeiriadur o fangreoedd llety ymwelwyr*

45 Cyfeiriadur o lety ymwelwyr

*Hysbysebu a marchnata*

46 Hysbysebu a marchnata: darparu gwybodaeth i'r cyhoedd
47 Trosedd sy'n ymwneud â hysbysebu a marchnata mangreoedd

## RHAN 5
## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

### PENNOD 1
### AMRYWIOL

*Cymhwyso'r Ddeddf i achosion arbennig*

48 Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig
49 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig
50 Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chyrff anghorfforedig
51 Atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.
52 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd
53 Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

*Troseddau: hysbysiadau cosb*

54 Hysbysiadau cosb

### PENNOD 2
### CYFFREDINOL

55 Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru
56 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.
57 Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf
58 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon
59 Dehongli a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio
60 Dod i rym
61 Enw byr

Atodlen 1 - Diwygio Deddf Datblygu Twristiaeth 1969
Atodlen 2 - Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Gofrestr o Ddarparwyr Llety Ymwelwyr

# Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru)

[FEL Y'I DIWYGIWYD YNG NGHYFNOD 2]

Deddf gan Senedd Cymru i hybu datblygiad twristiaeth, rheoleiddio darpariaeth llety ymwelwyr, a sefydlu cyfeiriadur o fangreoedd llety ymwelwyr.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## CYFLWYNIAD

**1 Trosolwg**

(1) Mae'r Ddeddf hon yn ffurfio rhan o god o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth.

(2) Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran hybu datblygiad twristiaeth.

(3) Mae Rhan 3 yn rheoleiddio darparu disgrifiadau penodedig o lety ymwelwyr mewn mangreoedd yng Nghymru (y cyfeirir ato fel "llety ymwelwyr rheoleiddiedig") at ddiben gwella a hybu safon y llety hwnnw.

(4) Mae Pennod 1 o Ran 3 yn gwneud darpariaeth sy'n cyflwyno cysyniadau allweddol, gan gynnwys y diffiniad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig, ac ystyr mangre yn bod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

(5) Mae Pennod 2 o Ran 3 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i fangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig fod wedi ei thrwyddedu gan Weinidogion Cymru ac sy'n gosod amodau trwydded, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i fangre fod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

(6) Mae Pennod 3 o Ran 3 yn gwneud ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr yn rhwymedigaeth gontractiol sy'n orfodadwy gan ymwelwyr y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig iddynt.

(7) Mae Rhan 4—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru (sy'n cynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a sefydlwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5)) a Gweinidogion Cymru roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar ffurf cyfeiriadur o lety ymwelwyr mewn mangreoedd yng Nghymru;

(b) yn creu troseddau sy'n ymwneud â hysbysebu a marchnata llety ymwelwyr a ddarperir mewn mangreoedd anghofrestredig.

(8) Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth amrywiol a chyffredinol ynghylch gweithredu'r Ddeddf hon.

## RHAN 2

## DATBLYGU TWRISTIAETH

**2 Swyddogaethau Gweinidogion Cymru o ran datblygu twristiaeth**

(1) Mae gan Weinidogion Cymru y swyddogaethau a ganlyn mewn perthynas â hybu datblygiad twristiaeth yng Nghymru—

(a) annog pobl i ymweld â Chymru,

(b) annog pobl sy’n byw yng Nghymru i ymweld â lleoedd eraill yng Nghymru,

(c) darparu neu wella, neu hwyluso darparu neu wella, amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru, a

(d) darparu neu wella, neu hwyluso darparu neu wella, seilwaith yng Nghymru i’w ddefnyddio gan dwristiaid (pa un a yw hwn i’w ddefnyddio gan bobl leol hefyd ai peidio).

(2) Ond wrth arfer y swyddogaethau hynny rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd—

(a) lliniaru’r effaith gymdeithasol ac amgylcheddol y mae twristiaid yn ei chael, a

(b) cynnal a hybu defnydd o’r Gymraeg.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn briodol, o fewn Cymru neu’r tu allan iddi, at ddiben cyflawni eu swyddogaethau o dan is-adran (1), gan gynnwys cyflawni, neu hwyluso, y gweithgareddau a ganlyn—

(a) marchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid;

(b) darparu gwasanaethau cynghori a gwybodaeth ynghylch twristiaeth yng Nghymru;

(c) cynnal ymchwil ynghylch twristiaeth yng Nghymru;

(d) darparu cymorth ariannol (ar y telerau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol).

(4) Yn is-adran (1)(c) ac yn adran 3, ystyr “amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru” yw amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i bobl sy’n ymweld â Chymru ac i bobl sy’n teithio o fewn Cymru ar gyfer busnes neu ar gyfer pleser.

(5) Gweler hefyd adran 3 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 (p. 51), sy’n darparu y caiff Awdurdod Twristiaeth Prydain lunio cynllun er mwyn i gymorth ariannol gael ei roi gan Weinidogion Cymru (yn ogystal â chan Fwrdd Twristiaeth Lloegr a chan VisitScotland) ar gyfer cyflawni prosiectau i ddarparu neu wella cyfleusterau neu amwynderau twristiaeth ym Mhrydain Fawr.

**3 Cod ymarfer ar dwristiaeth**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer sy’n darparu canllawiau ynghylch arferion gorau o ran darparu—

(a) llety ymwelwyr, a

(b) amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau eraill i dwristiaid yng Nghymru.

(2) Caiff y cod ymarfer o dan is-adran (1), yn benodol, roi canllawiau ynghylch—

(a) ansawdd mangreoedd a ddefnyddir i ddarparu llety ymwelwyr;

(b) gwasanaeth i gwsmeriaid;

(c) hysbysebu a marchnata;

(d) hygyrchedd mangreoedd;

(e) cynaliadwyedd ac ystyriaethau amgylcheddol eraill;

(f) hybu'r Gymraeg a diwylliant Cymru;

(g) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r cod a rhaid iddynt gyhoeddi cod diwygiedig.

**4 Diwygio deddfiadau ar dwristiaeth**

(1) Yn adran 1 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5), o flaen is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) Mae'r Ddeddf hon yn ffurfio rhan o god o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â thwristiaeth."

(2) Mae Atodlen 1 yn diwygio Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 (p. 51).

(3) Mae Deddf Twristiaeth (Hybu Dramor) (Cymru) 1992 (p. 26) wedi ei diddymu.

## RHAN 3

## RHEOLEIDDIO LLETY YMWELWYR

### PENNOD 1

### CYSYNIADAU ALLWEDDOL

*Llety ymwelwyr rheoleiddiedig*

**5 Ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig**

(1) Yn y Ddeddf hon, ystyr "llety ymwelwyr rheoleiddiedig" yw llety ymwelwyr o'r disgrifiadau a ganlyn—

(a) llety hunanddarpar sy'n hunangynhwysol, ac sydd mewn—

(i) adeilad, neu

(ii) cartref symudol, llestr neu gerbyd arall;

(b) unrhyw ddisgrifiad arall o lety ymwelwyr a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

(2) Ond at ddibenion is-adran (1)(a), nid yw llety hunanddarpar sy'n hunangynhwysol yn llety ymwelwyr rheoleiddiedig—

(a) os yw'n cael ei ddarparu mewn—

(i) gwesty (gan gynnwys gwesty fflatiau), tŷ llety neu lety gwely a brecwast,

(ii) hostel ieuenctid, byncws neu ysgubor gwersylla,

(iii) safle gwersylla y mae adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p. 49) yn gymwys mewn cysylltiad ag ef, neu

(iv) safle carafannau y mae Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62) yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

(b) os yw'n cael ei ddarparu heblaw ar sail tymor byr, at ddibenion teithio ar gyfer busnes neu hamdden neu ar gyfer tripiau addysgol;

(c) yn achos llety mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, os nad yw wedi ei leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle.

(3) At ddibenion is-adrannau (1) a (2), mae llety hunanddarpar yn "hunangynhwysol"—

(a) os yw'n cynnwys—

(i) un neu ragor o welyau ar gyfer cysgu,

(ii) toiled, sinc, a bath neu gawod, a

(iii) cegin neu ardal gegin, a

(b) os, yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety, darperir y cyfleusterau a ddisgrifir ym mharagraff (a) at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(b) bennu disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig, drwy gyfeiriad at—

(a) natur neu gynnwys y contractau y darperir y llety odanynt;

(b) natur neu statws y canlynol, neu unrhyw nodwedd benodol arnynt—

(i) y llety;

(ii) y fangre lle y darperir y llety;

(iii) y darparwr llety ymwelwyr ("DLlY");

(iv) unrhyw ymwelydd y darperir y llety iddo;

(c) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(b) ddiwygio'r Ddeddf hon neu Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) (ac mae'r cyfeiriad yn is-adran (1)(b) at "a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau" yn cynnwys cyfeiriad at ddiwygiad a wneir gan y rheoliadau hynny).

(6) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol a rhoi cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau hynny i ymateb.

(7) Yn y Ddeddf hon mae i'r termau a ganlyn yr ystyr a roddir yn y darpariaethau yn Neddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) a bennir isod, neu maent i'w darllen drwy gyfeirio at y darpariaethau hynny—

(a) ystyr "llety ymwelwyr"—

(i) yw llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno, ond

(ii) nid yw'n cynnwys llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 29(2)(b) o'r Ddeddf honno (llety a ddarperir o dan amgylchiadau penodol gan gyrff cyhoeddus);

(b) ystyr "darparwr llety ymwelwyr" (neu "DLlY") yw person sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno (cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr);

(c) mae cyfeiriadau at "darparu" neu at "yn cynnig darparu" llety ymwelwyr i'w darllen yn unol ag adran 3(3) a (5)(a) o'r Ddeddf honno;

(d) mae "mangre" i'w ddarllen yn unol ag adran 4(7)(b) o'r Ddeddf honno;

(e) mae "ar sail tymor byr" i'w ddarllen yn unol ag adran 2(3) o'r Ddeddf honno;

(f) mewn perthynas â llety ymwelwyr, mae cyfeiriad at "ymwelydd" yn gyfeiriad at unigolyn sydd â hawlogaeth i breswylio yn y llety ymwelwyr am un neu ragor o nosweithiau, o dan gontract a ddisgrifir yn adran 3(3) o'r Ddeddf honno neu o ganlyniad i gontract o'r fath.

*Ffitrwydd mangre llety ymwelwyr*

**6 Ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr**

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn ffit i fod yn llety ymwelwyr oni bai—

(a) bod y safon gyffredinol o ran ffitrwydd a ddisgrifir yn adran 7 heb ei chyrraedd a bod y risg o niwed neu o golli amwynder oherwydd ei bod heb ei chyrraedd yn golygu nad yw'r fangre yn rhesymol addas i ymwelydd breswylio ynddi, neu

(b) i'r graddau y maent yn gymwys mewn cysylltiad â'r fangre, bod unrhyw un neu ragor o'r safonau ffitrwydd penodol y cyfeirir atynt yn adran 8 heb ei chyrraedd neu heb eu cyrraedd.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) gwneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol ynghylch mangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn bod yn ffit i fod yn llety ymwelwyr, a

(b) diwygio'r Ddeddf hon at y diben hwnnw, gan gynnwys drwy hepgor unrhyw un neu ragor o'r gofynion a restrir yn adran 8.

(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) At ddibenion yr adran hon ac adrannau 7 i 13, mae cyfeiriad at y "mangre" lle y darperir llety ymwelwyr—

(a) mewn perthynas â llety ymwelwyr rheoleiddiedig a ddarperir mewn rhan o'r fangre, yn gyfeiriad at y rhan honno o'r fangre lle y darperir y llety hwnnw;

(b) yn achos llety o ddisgrifiad a roddir yn adran 5(1)(a) (llety hunanddarpar rheoleiddiedig), yn cynnwys unrhyw ardal yn yr awyr agored, unrhyw garej neu unrhyw adeilad arall a ddarperir at ddefnydd yr ymwelydd a neb arall yn ystod y cyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety.

**7 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safon gyffredinol**

Y safon gyffredinol o ran ffitrwydd yw bod y gofynion a ganlyn, i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â'r fangre, wedi eu bodloni—

(a) mewn perthynas â'r risg o niwed i ymwelwyr—

(i) bod y fangre yn strwythurol sefydlog,

(ii) bod dyluniad, cynllun ac adeiladwaith y fangre yn briodol,

(iii) bod y fangre ac unrhyw eitemau gosod yn cael eu cynnal a'u cadw yn ddigonol a'u bod mewn cyflwr da,

(iv) bod unrhyw osodiadau ar gyfer cyflenwi nwy, trydan neu ddŵr yn gweithio'n iawn ac, yn achos dŵr, nad ydynt wedi eu halogi,

(v) bod y fangre yn rhydd rhag carbon monocsid, tân afreolus a'r mwg sy'n gysylltiedig ag ef, a sylweddau peryglus eraill,

(vi) bod y fangre yn hylan, a

(vii) bod y fangre yn ddiogel;

(b) mewn perthynas â'r amwynder i ymwelwyr—

(i) bod gan y fangre ddarpariaeth ddigonol o ddulliau goleuo, gwresogi ac awyru,

(ii) bod gan y fangre system ddraenio ddigonol,

(iii) bod gan y fangre le priodol ar gyfer cysgu,

(iv) yn achos llety hunanddarpar, fod gan y fangre gyfleusterau priodol ar gyfer paratoi, storio a choginio bwyd, a

(v) bod gan y fangre gyfleusterau glanweithdra digonol a phriodol.

**8 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: y safonau penodol**

Y safonau ffitrwydd penodol yw'r rhai a nodir yn yr adrannau a ganlyn—

(a) adran 9 (diogelwch tân),

(b) adran 10 (cynnal a chadw trydanol),

(c) adran 11 (cynnal a chadw o ran nwy),

(d) adran 12 (risg carbon monocsid), ac

(e) adran 13 (yswiriant).

**9 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: diogelwch tân**

(1) Y safon diogelwch tân, mewn perthynas ag unrhyw fangre lle y darperir llety ymwelwyr rheoleiddiedig, yw bod y DLlY yn cynnal—

(a) asesiad ysgrifenedig o'r risgiau y mae personau yn y fangre yn agored iddynt at ddiben nodi'r rhagofalon tân cyffredinol y mae angen i'r DLlY eu cymryd er mwyn sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, ddiogelwch y personau hynny, a

(b) cofnod o'r rhagofalon tân cyffredinol a nodwyd ac a gymerwyd yn unol â'r asesiad hwnnw.

(2) At ddibenion is-adran (1)—

(a) mae i "rhagofalon tân cyffredinol" yr un ystyr ag a roddir i "general fire precautions" yn erthygl 4 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541);

(b) rhaid i'r DLlY gadw'r asesiad o dan adolygiad, a'i ddiweddaru fel y bo'n briodol, a rhaid i'r DLlY ddiweddaru'r asesiad—

(i) pan fo newid sylweddol wedi bod yn unrhyw un neu ragor o'r materion y mae'n ymwneud â hwy, neu

(ii) pan fo'r DLlY yn ymwybodol, neu y dylai fod yn ymwybodol, fod unrhyw reswm arall i ddiweddaru'r asesiad.

**10 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw trydanol**

(1) Y safon cynnal a chadw trydanol yw, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, fod y DLlY yn meddu ar adroddiad dilys ("adroddiad ar gyflwr trydanol") sy'n nodi canlyniadau archwiliad o bob gosodiad gwasanaeth trydanol yn y fangre, a phrofion arnynt, a gynhaliwyd gan berson cymwysedig, a naill ai–

(a) bod yr adroddiad yn cofnodi nad yw'n ofynnol gwneud unrhyw waith ymchwilio nac atgyweirio er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch trydanol wedi eu cyrraedd, neu

(b) pan fo'r adroddiad yn nodi ei bod yn ofynnol gwneud gwaith ymchwilio neu atgyweirio er mwyn sicrhau bod y safonau diogelwch trydanol wedi eu cyrraedd, fod cofnod ysgrifenedig bod y gwaith wedi ei gyflawni.

(2) Mae adroddiad ar gyflwr trydanol yn ddilys—

(a) hyd at ddiwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cynhaliwyd yr archwiliad diogelwch trydanol y mae'n ymwneud ag ef, neu

(b) hyd at y diwrnod y mae'r adroddiad ar gyflwr trydanol yn datgan y dylid cynnal yr archwiliad diogelwch trydanol nesaf (os yw'n gynt).

(3) Yn yr adran hon—

(a) ystyr "safonau diogelwch trydanol" yw'r safonau ar gyfer gosodiadau gwasanaeth trydanol a nodir yn yr argraffiad o'r Rheoliadau Gosod Gwifrau sef y "Wiring Regulations", a gyhoeddir gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg a'r Sefydliad Safonau Prydeinig, sy'n gymwys ar adeg yr archwiliad;

(b) ystyr "gosodiad gwasanaeth trydanol" yw gosodiad ar gyfer cyflenwi trydan; ac mae'r cyfeiriad at osodiad gwasanaeth trydanol "yn y fangre" yn cynnwys, pan fo'r fangre yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, osodiad gwasanaeth trydanol sy'n gwasanaethu'r fangre yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac sydd wedi ei osod mewn unrhyw ran o'r adeilad y mae'r DLlY yn feddiannydd arno;

(c) ystyr "person cymwysedig" yw person sy'n gymwys i wneud y gwaith archwilio a phrofi ar osodiad gwasanaeth trydanol, ac unrhyw waith archwilio neu waith atgyweirio pellach, yn unol â'r safonau diogelwch trydanol;

(d) ystyr "cofnod ysgrifenedig o'r gwaith", mewn perthynas â gwaith ymchwilio neu atgyweirio, yw cofnod ysgrifenedig a luniwyd gan berson—

(i) sydd yn berson cymwysedig, a

(ii) a gyflawnodd y gwaith.

**11 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: cynnal a chadw o ran nwy**

(1) Y safon cynnal a chadw o ran nwy yw, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, fod cofnod cynnal a chadw o ran nwy mewn perthynas â'r canlynol—

(a) unrhyw gyfarpar nwy neu unrhyw bibellau gosodiadau sydd wedi ei osod neu wedi eu gosod yn y fangre,

(b) ac eithrio pan na fo ond yn cael ei ddefnyddio, neu pan na fônt ond yn cael eu defnyddio, mewn rhan o fangre a feddiennir at ddibenion amhreswyl, unrhyw gyfarpar nwy neu unrhyw bibellau i osodiad sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn gwasanaethu'r fangre ac sydd wedi ei osod neu wedi eu gosod mewn unrhyw ran o'r adeilad y mae'r DLlY yn feddiannydd arno, ac

(c) unrhyw ffliw sy'n gwasanaethu cyfarpar nwy neu bibellau i osodiad y cyfeirir ato neu atynt ym mharagraff (a) neu (b).

(2) Yn is-adran (1)—

(a) mae i "ffliw" a "pibellau gosodiadau" yr un ystyr ag a roddir i "flue" ac "installation pipework" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 (O.S. 1998/2451);

(b) mae i "cyfarpar nwy" yr un ystyr ag a roddir i "gas appliance" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998, gan gynnwys y rhan honno o'r diffiniad sy'n gymwys at ddibenion rheoliadau 3, 35 ac 36 o'r Rheoliadau hynny;

(c) ystyr "cofnod cynnal a chadw o ran nwy" yw'r cofnod cynnal a chadw o dan reoliad 36(3)(c) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998—

(i) y mae rhaid i'r DLlY ei gadw yn unol â'r rheoliad hwnnw, os yw'r rheoliad yn gymwys i'r DLlY, neu

(ii) y byddai angen i'r DLlY ei gadw pe bai'r rheoliad hwnnw yn gymwys i'r DLlY, os nad yw'r rheoliad yn gymwys i'r DLlY.

**12 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: risg carbon monocsid**

(1) Y safon risg carbon monocsid yw, yn achos llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn adeilad neu mewn cartref symudol, llestr neu gerbyd arall, fod larwm carbon monocsid gweithredol mewn unrhyw ystafell yn y fangre y mae ynddi—

(a) cyfarpar nwy,

(b) cyfarpar hylosgi sy'n cael ei danio ag olew, neu

(c) cyfarpar hylosgi sy'n llosgi tanwydd solet.

(2) Yn is-adran (1)—

(a) mae i "cyfarpar nwy" yr un ystyr ag a roddir i "gas appliance" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998, gan gynnwys y rhan honno o'r diffiniad sy'n gymwys at ddibenion rheoliadau 3, 35 ac 36 o'r Rheoliadau hynny;

(b) mae "ystafell" yn cynnwys cyntedd, pen grisiau neu goridor.

**13 Ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: yswiriant**

(1) Y safon yswiriant yw bod polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le mewn perthynas ag atebolrwyddau i drydydd partïon sy’n deillio o ddarparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre neu sy’n gysylltiedig â darparu llety o’r fath.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y materion neu’r amgylchiadau y mae rhaid i’r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddarparu sicrwydd mewn perthynas â hwy, a

(b) cwmpas y sicrwydd hwnnw.

**PENNOD 2**

TRWYDDEDU

*Trwyddedau ac amodau trwydded*

**14 Trwyddedau llety ymwelwyr**

(1) Yn y Bennod hon, ystyr “trwydded llety ymwelwyr” yw trwydded a roddir gan Weinidogion Cymru yn awdurdodi mangre y mae’r drwydded yn ymwneud â hi i gael ei defnyddio at ddibenion darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

(2) Nid oes dim yn y Bennod hon yn atal dwy neu ragor o drwyddedau llety ymwelwyr rhag cael effaith yn gydredol mewn cysylltiad â’r fangre gyfan neu â rhan o’r un fangre.

(3) Mae Atodlen 2 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) mewn cysylltiad â’r Bennod hon.

**15 Amodau trwydded: cyffredinol**

(1) O ran trwydded llety ymwelwyr—

(a) rhaid iddi gael ei rhoi yn ddarostyngedig i—

(i) yr amodau trwydded a nodir yn is-adran (2);

(ii) unrhyw amodau trwydded pellach a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 17 (i’r graddau y mae’n gymwys);

(b) caniateir iddi gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw amodau trwydded a bennir (fesul achos unigol) gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 40.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod—

(i) y darparwr llety ymwelwyr (“DLlY”) y rhoddir y drwydded iddo wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â’r fangre y mae’r drwydded yn ymwneud â hi, a

(ii) cofnod y DLlY yn y gofrestr yn dangos bod y DLlY yn darparu’r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r drwydded yn ymwneud ag ef, yn y fangre honno;

(b) bod y DLlY wedi cwblhau’r hyfforddiant cymwys ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr (gweler adran 16);

(c) bod—

(i) y safonau ffitrwydd penodol (gweler adran 8) wedi eu cyrraedd, i'r graddau y maent yn gymwys mewn cysylltiad â'r fangre, a

(ii) bod y safon gyffredinol o ran ffitrwydd (gweler adran 7) wedi ei chyrraedd mewn cysylltiad â'r fangre yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety;

(d) bod y DLlY yn cymryd pob cam rhesymol, mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr yn y fangre—

(i) i atal ymddygiad a allai beri niwsans neu annifyrrwch i berson sydd â hawl (o ba bynnag ddisgrifiad) i breswylio yng nghyffiniau'r fangre, a

(ii) i atal ymddygiad o'r fath, pan fo'n digwydd, rhag peri'r niwsans neu'r annifyrrwch;

(e) bod y DLlY yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y darperir i ymwelydd, cyn unrhyw gyfnod pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety—

(i) copi o dystysgrif y drwydded, a

(ii) y datganiad o wybodaeth (gweler adran 22);

(f) bod y DLlY yn sicrhau bod copi o dystysgrif y drwydded yn hygyrch yn y fangre ar ffurf papur neu'n electronig ar unrhyw adeg pryd y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety.

(3) At ddibenion is-adran (2)—

(a) mae cyfeiriadau at "mangre" i'w dehongli yn unol ag adran 6(4);

(b) nid yw'r amod yn is-adran (2)(d) yn gymwys ond mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig o'r disgrifiad y cyfeirir ato yn adran 5(1)(a);

(c) mae'r cyfeiriad yn is-adran (2)(d) at atal ymddygiad a allai beri niwsans neu annifyrrwch wedi ei gyfyngu i atal ymddygiad—

(i) y mae modd i'r DLlY ei rag-weld neu y dylai bod modd i'r DLlY ei rag-weld, a

(ii) sy'n ymarferol i'w atal.

(4) At ddibenion y Bennod hon, nid yw erthygl 43 o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) (atal dros dro delerau ac amodau trwydded) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw amod nac unrhyw ofyniad cymeradwyo (gweler adran 19) a osodir mewn perthynas â thrwydded llety ymwelwyr.

**16 Amodau trwydded: hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr**

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyfforddiant ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr sy'n gymwys at ddibenion—

(a) yr amod y cyfeirir ato yn adran 15(2)(b), a

(b) y gofyniad cymeradwyo y cyfeirir ato yn adran 19(2)(b).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi'r hyfforddiant y mae rhaid i DLlY ei gwblhau mewn perthynas ag—

(a) yr amodau trwydded y cyfeirir atynt yn adran 15(1)(a);

(b) cynnwys y cod ymarfer a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 3;

(c) unrhyw faterion eraill sy’n gysylltiedig â rheoleiddio llety ymwelwyr o dan y Rhan hon a Rhan 4 y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2)—

(a) gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â darparu disgrifiadau gwahanol o lety ymwelwyr rheoleiddiedig neu â disgrifiadau gwahanol o fangre;

(b) gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o DLlY (gan gynnwys mewn perthynas ag endidau corfforaethol ac endidau anghorfforaethol);

(c) darparu ar gyfer amgylchiadau pryd nad yw’n ofynnol cwblhau hyfforddiant.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) hefyd wneud darpariaeth—

(a) mewn cysylltiad â hyfforddiant yn cael ei ddarparu dim ond—

(i) gan Weinidogion Cymru, neu

(ii) gan bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru;

(b) sy’n pennu’r ffioedd y caniateir eu codi neu ddull ar gyfer penderfynu’r ffioedd y caniateir eu codi—

(i) gan Weinidogion Cymru, neu bersonau sydd wedi eu hawdurdodi gan Weinidogion Cymru, am ddarparu hyfforddiant;

(ii) gan Weinidogion Cymru am awdurdodi person i ddarparu hyfforddiant.

(5) Cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**17 Amodau trwydded: amodau pellach**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru yn unol ag is-adrannau (2) a (3) wneud rheoliadau sy’n rhagnodi amodau pellach sydd i fod yn gymwys i drwydded llety ymwelwyr.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ragnodi unrhyw amodau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol at ddibenion—

(a) cynnal neu wella safon llety ymwelwyr yng Nghymru;

(b) cynnal neu wella amwynder mangre lle y darperir llety ymwelwyr neu amwynder y tir y mae’r fangre honno arno;

(c) hybu twristiaeth yng Nghymru.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ragnodi amod drwy gyfeirio at—

(a) disgrifiad o fangre y mae’r amod yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

(b) disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae’r amod yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

(c) natur neu gynnwys y contractau y darperir disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre odanynt yn unol â’r drwydded;

(d) y disgrifiad o DLlY y rhoddir y drwydded iddo;

(e) disgrifiad o berson y darperir llety ymwelwyr iddo yn y fangre yn unol â’r drwydded;

(f) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(4) O ran rheoliadau o dan is-adran (1)—

(a) rhaid iddynt wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso unrhyw amodau a ragnodir gan y rheoliadau i drwyddedau a roddir (neu a adnewyddir) cyn i'r amodau hynny ddod i rym;

(b) cânt ddiwygio'r Ddeddf hon at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig ag amodau yn cael eu rhagnodi o dan yr adran hon.

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(6) Ond nid yw'r gofyniad o dan is-adran (5) yn gymwys i reoliadau—

(a) sy'n diwygio rheoliadau a wnaed yn flaenorol o dan is-adran (1), a

(b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i'w diwygio.

*Ceisiadau am drwydded: y weithdrefn*

**18 Ceisiadau am drwydded: cyffredinol**

(1) Caiff DLlY sy'n bwriadu darparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre yng Nghymru y mae'r DLlY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded llety ymwelwyr mewn cysylltiad â'r fangre honno.

(2) Rhaid i gais o dan is-adran (1)—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan Weinidogion Cymru;

(b) cynnwys gydag ef unrhyw ffi a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau o dan adran 38(1).

(3) Rhaid i gais o dan is-adran (1) gynnwys unrhyw wybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch—

(a) y fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi;

(b) y llety ymwelwyr rheoleiddiedig sydd i'w ddarparu (neu i'w gynnig) yn y fangre yn unol â'r drwydded;

(c) a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cais;

(d) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan y Bennod hon.

**19 Ceisiadau am drwydded: gofynion cymeradwyo**

(1) Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch y gofynion sydd i'w bodloni mewn perthynas â chais gan DLlY am drwydded llety ymwelwyr ("y gofynion cymeradwyo").

(2) Y gofynion cymeradwyo yw—

(a) bod—

(i) y DLlY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â'r fangre y mae'r cais yn ymwneud â hi, a

(ii) cofnod y DLlY yn y gofrestr yn dangos bod y DLlY yn darparu'r llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae'r cais yn ymwneud ag ef, yn y fangre honno;

(b) bod y DLlY wedi cwblhau'r hyfforddiant cymwys ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr (gweler adran 16);

(c) bod—

(i) y safonau ffitrwydd penodol (gweler adran 8) wedi eu cyrraedd, i'r graddau y maent yn gymwys mewn cysylltiad â'r fangre,

(ii) y fangre'n ymddangos fel pe bai'n cynnig amwynder digonol a phriodol i ymwelwyr, a

(iii) y safon gyffredinol o ran ffitrwydd (gweler adran 7) yn debygol o gael ei chyrraedd mewn cysylltiad â'r fangre yn ystod unrhyw gyfnod pryd y mae gan ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y llety.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi unrhyw ofynion cymeradwyo pellach y maent yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben—

(a) cynnal neu wella safon llety ymwelwyr yng Nghymru;

(b) cynnal neu wella amwynder mangre lle y darperir llety ymwelwyr neu amwynder y tir y mae'r fangre honno arno;

(c) hybu twristiaeth yng Nghymru.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) ragnodi gofyniad cymeradwyo drwy gyfeirio at—

(a) disgrifiad o fangre y mae'r gofyniad yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

(b) disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae'r gofyniad yn gymwys mewn cysylltiad ag ef;

(c) natur neu gynnwys y contractau y darperir disgrifiad o lety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre odanynt yn unol â'r drwydded;

(d) y disgrifiad o DLlY y rhoddir y drwydded iddo;

(e) disgrifiad o berson y darperir llety ymwelwyr iddo yn y fangre yn unol â'r drwydded;

(f) unrhyw fater arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) ddiwygio'r Ddeddf hon at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â gofynion yn cael eu rhagnodi o dan yr adran hon.

(6) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (3) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(7) Ond nid yw'r gofyniad o dan is-adran (6) yn gymwys i reoliadau—

(a) sy'n diwygio rheoliadau a wnaed yn flaenorol o dan is-adran (3), a

(b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i'w diwygio.

(8) Yn yr adran hon mae cyfeiriadau at "mangre" i'w dehongli yn unol ag adran 6(4).

**20 Ceisiadau am drwydded: dyfarnu**

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cael cais am drwydded llety ymwelwyr a wneir gan DLlY o dan adran 18—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y cais yn ddilys oherwydd ei fod yn bodloni'r gofynion a ddisgrifir yn yr adran honno, rhaid iddynt ddyfarnu ar y cais yn unol ag is-adrannau (3) i (6);

(b) os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y cais yn ddilys, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(i) hysbysu'r DLlY, a

(ii) gwrthod y cais.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo yn adran 19(2)(c)(i) ac adran 19(2)(c)(ii) wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cais, caiff Gweinidogion Cymru ar y sail honno fod wedi eu bodloni bod y gofyniad yn adran 19(2)(c)(iii) wedi ei fodloni.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cais, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(a) cymeradwyo'r cais, a

(b) rhoi'r drwydded llety ymwelwyr i'r DLlY.

(4) Pan na fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod yr holl ofynion cymeradwyo wedi eu bodloni rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, naill ai—

(a) gwrthod y cais a rhoi hysbysiad i'r DLlY—

(i) yn pennu'r gofyniad cymeradwyo nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod wedi ei fodloni,

(ii) yn nodi'r rhesymau pam nad ydynt wedi eu bodloni, a

(iii) yn esbonio'r hawl i apelio yn erbyn eu penderfyniad a roddir gan adran 28, neu

(b) rhoi hysbysiad i'r DLlY ("hysbysiad am asesiad pellach") yn unol ag is-adran (5).

(5) Rhaid i hysbysiad am asesiad pellach a roddir o dan is-adran (4)—

(a) nodi'r rhesymau pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni,

(b) pennu—

(i) unrhyw gamau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y caiff y DLlY eu cymryd, neu unrhyw wybodaeth y caiff y DLlY ei darparu, er mwyn bodloni Gweinidogion Cymru fod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni, a

(ii) cyfnod o ddim llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad y caniateir cymryd y camau gweithredu hynny, neu ddarparu'r wybodaeth honno, ynddo,

(c) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol cynnal archwiliad o'r fangre, bennu y bydd Gweinidogion Cymru yn trefnu i berson awdurdodedig archwilio'r fangre, a

(d) pennu—

(i) unrhyw gamau gweithredu eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol eu cymryd er mwyn dyfarnu a yw'r gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni, a

(ii) cyfnod y bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd y camau gweithredu hynny ynddo.

(6) At ddibenion is-adrannau (3) a (4), caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pa un a ydynt wedi eu bodloni ai peidio bod gofyniad cymeradwyo wedi ei fodloni—

(a) dim ond ar sail gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y cais (neu wedi ei hepgor ohono), neu

(b) ar sail yr wybodaeth honno ac unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Weinidogion Cymru, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) wybodaeth a ddarperir mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan y Bennod hon.

(7) Ond nid yw'r rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru (fel awdurdod trwyddedu) o dan erthygl 42(1)(a) o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (O.S. 2005/1541) yn gymwys mewn perthynas â rhoi trwydded o dan y Bennod hon.

**21 Ceisiadau am drwydded: asesiad pellach cyn dyfarnu**

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn dyroddi hysbysiad am asesiad pellach o dan adran 20(4)(b) mewn perthynas â chais am drwydded llety ymwelwyr a wneir gan DLlY o dan adran 18, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gynnal asesiad pellach o'r cais, gan roi sylw i—

(a) unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gan y DLlY (o fewn y cyfnod a bennwyd) yn unol â'r hysbysiad;

(b) unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r hysbysiad;

(c) unrhyw wybodaeth arall—

(i) na chafodd ei chynnwys yn y cais, a

(ii) y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn berthnasol i ddyfarnu ar y cais.

(2) Ar ôl cynnal asesiad pellach—

(a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cais, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol—

(i) cymeradwyo'r cais, a

(ii) rhoi'r drwydded llety ymwelwyr i'r DLlY;

(b) os nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y gofynion cymeradwyo wedi eu bodloni mewn perthynas â'r cais, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, roi hysbysiad i'r DLlY—

(i) yn pennu'r gofyniad cymeradwyo nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod wedi ei fodloni,

(ii) yn nodi'r rhesymau pam nad yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, a

(iii) yn esbonio'r hawl i apelio yn erbyn eu penderfyniad a roddir gan adran 28.

**22 Trwydded llety ymwelwyr: dyroddi tystysgrif a datganiad o wybodaeth**

(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn rhoi trwydded llety ymwelwyr o dan adran 20(3) neu adran 21(2), rhaid iddynt ddyroddi i'r DLlY—

(a) tystysgrif trwydded sy'n pennu—

(i) y llety ymwelwyr rheoleiddiedig y caniateir ei ddarparu (neu ei gynnig) yn y fangre yn unol â'r drwydded, a

(ii) yr amodau trwydded sy'n gymwys mewn perthynas â'r llety hwnnw, a

(b) datganiad o wybodaeth sy'n egluro—

(i) sut y mae'r Bennod hon a Phennod 3 yn gweithredu, a

(ii) sut y gellir gwneud cwynion i Weinidogion Cymru os yw ymwelydd yn pryderu bod amod yn y drwydded wedi ei dorri.

*Trwyddedau: torri, unioni a dirymu*

**23 Torri amodau trwydded: dirymu**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys mewn perthynas â thrwydded llety ymwelwyr y mae DLlY yn meddu arni—

(a) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod amod yn y drwydded wedi ei dorri a bod yr amod yn debygol o—

(i) parhau i gael ei dorri, neu

(ii) cael ei dorri eto;

(b) os yw'r DLlY wedi cytuno y dylid dirymu'r drwydded.

(2) Pan fo'r is-adran hon yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru ddirymu'r drwydded a rhoi hysbysiad i'r DLlY ("hysbysiad dirymu")—

(a) yn rhoi gwybod i'r DLlY fod y drwydded wedi ei dirymu,

(b) yn nodi'r rhesymau pam y mae'r drwydded wedi ei dirymu, ac

(c) (ac eithrio pan fo'r DLlY wedi cytuno i'r drwydded gael ei dirymu) yn esbonio'r hawl i apelio yn erbyn eu penderfyniad i ddirymu'r drwydded a roddir gan adran 28.

(3) Mae dirymiad trwydded a ddatgenir mewn hysbysiad o dan is-adran (2) yn cymryd effaith—

(a) pan fo'r DLlY wedi cytuno i'r drwydded gael ei dirymu, ar y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, a

(b) mewn unrhyw achos arall—

(i) os na wneir apêl yn erbyn y penderfyniad, drannoeth diwrnod olaf y cyfnod apelio y cyfeirir ato yn adran 28;

(ii) os gwneir apêl, ar y diwrnod a bennir gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf wrth ddyfarnu ar yr apêl neu ar y diwrnod y tynnir yr apêl yn ôl.

(4) Ond mae adran 24 yn gwneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau pan na chaiff Gweinidogion Cymru, er bod is-adran (1)(a) o'r adran hon yn gymwys, ddirymu trwydded heb roi cyfle yn gyntaf i'r DLlY i unioni'r tor amod.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch yr amgylchiadau pryd—

(a) y caiff Gweinidogion Cymru roi gwybod i'r DLlY ymlaen llaw am eu bwriad i roi hysbysiad dirymu o dan is-adran (2) os yw'r tor amod trwydded yn parhau neu os yw amod trwydded yn cael ei dorri eto;

(b) y caiff hysbysiad dirymu a roddir o dan is-adran (2) gymryd effaith ar unwaith oherwydd difrifoldeb y tor amod.

**24 Torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch yr amgylchiadau pan na chaiff Gweinidogion Cymru ddirymu trwydded yn rhinwedd adran 23(1)(a) heb ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad adfer") yn gyntaf, yn rhoi cyfle i'r DLlY i unioni'r tor amod.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau adfer gan gynnwys mewn cysylltiad â (ond heb fod yn gyfyngedig i)—

(a) ffurf a chynnwys hysbysiad adfer;

(b) y camau y gall fod yn ofynnol eu cymryd, neu'r gweithgarwch y mae rhaid ei stopio, er mwyn unioni tor amod trwydded;

(c) yr amserlen ar gyfer cyflawni'r camau, neu ar gyfer stopio'r gweithgarwch, y cyfeirir atynt ym mharagraff (b);

(d) camau gweithredu ataliol y gall fod yn ofynnol eu cymryd er mwyn lleihau'r risg bod tor amod yn digwydd eto;

(e) yr amserlen ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu y cyfeirir atynt ym mharagraff (d);

(f) yr amgylchiadau pryd na chaiff ymwelydd breswylio yn y fangre hyd nes bod tor amod trwydded wedi ei unioni, oherwydd risg o niwed difrifol i ymwelydd;

(g) yr amgylchiadau pryd y caniateir dyroddi hysbysiad dirymu o dan adran 23 oherwydd methiant i gydymffurfio â hysbysiad adfer;

(h) unrhyw amgylchiadau pryd na chaniateir dyroddi hysbysiad dirymu o dan adran 23, er gwaethaf methiant i gydymffurfio â hysbysiad adfer;

(i) amrywio hysbysiad adfer neu dynnu hysbysiad adfer yn ôl;

(j) apelio yn erbyn hysbysiad adfer;

(k) archwilio mangre neu ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu at ddiben asesu a gydymffurfiwyd â hysbysiad adfer.

*Trwyddedau: dod i ben, adnewyddu a diwygio*

**25 Trwydded yn dod i ben ac adnewyddu trwydded**

(1) Mae trwydded llety ymwelwyr yn dod i ben ar ddiwedd—

(a) y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y'i rhoddir, neu

(b) unrhyw gyfnod arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas ag adnewyddu trwydded llety ymwelwyr, gan gynnwys darpariaeth sy'n galluogi trwydded i gael ei thrin fel pe bai'n parhau i gael effaith tan y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar gais i adnewyddu.

(3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth—

(a) ar gyfer apelau;

(b) sy'n diwygio'r Ddeddf hon.

### 26 Diwygio trwydded

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau mewn perthynas â'r amgylchiadau pryd y caniateir diwygio trwydded llety ymwelwyr y mae DLlY yn meddu arni.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth i drwydded gael ei diwygio gan Weinidogion Cymru—

(a) ar gais a wneir gan y DLlY, neu

(b) heb gais o'r fath pan fo'r DLlY a Gweinidogion Cymru yn cytuno.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pryd y gall fod yn rhesymol i Weinidogion Cymru ddiwygio trwydded heb i gais gael ei wneud gan y DLlY a heb gytundeb y DLlY.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio'r Ddeddf hon.

*Trwyddedau: trwyddedau dros dro*

### 27 Trwyddedau dros dro

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan na chaniateir rhoi trwydded llety ymwelwyr i DLlY o dan adran 20(3) nac adran 21(2) oherwydd na ellir bodloni gofyniad cymeradwyo mewn cysylltiad â'r fangre neu'r llety y byddai'r drwydded honno yn ymwneud â hi neu ag ef.

(2) Pan fo'r is-adran hon yn gymwys, caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau i alluogi DLlY i wneud cais am drwydded llety ymwelwyr dros dro sy'n awdurdodi'r DLlY i gynnig darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre ond sy'n cyfyngu darpariaeth llety o'r fath nes i'r gofyniad gael ei fodloni.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2), ymysg pethau eraill, ragnodi—

(a) ffurf a chynnwys cais am drwydded dros dro;

(b) y gofynion cymeradwyo sy'n gymwys i gais am drwydded dros dro;

(c) yr amodau y caiff trwydded dros dro fod yn ddarostyngedig iddynt;

(d) y cyfyngiadau y caniateir eu gosod ar ddarpariaeth llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre y mae'r drwydded yn ymwneud â hi;

(e) y weithdrefn ar gyfer arddangos bod y gofynion o dan adran 19 wedi eu bodloni;

(f) y weithdrefn—

(i) ar gyfer dyfarnu bod y gofynion o dan adran 19 wedi eu bodloni, a

(ii) ar gyfer rhoi gwybod i'r DLlY y rhoddwyd y drwydded iddo nad yw'r drwydded yn drwydded dros dro mwyach ond yn hytrach yn drwydded a roddwyd o dan adran 22;

(g) yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr a gedwir o dan adran 36 mewn perthynas â thrwydded dros dro.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2) ddiwygio'r Ddeddf hon.

*Apelau*

**28 Apelau trwyddedu**

(1) Caiff DLlY y mae Gweinidogion Cymru yn rhoi hysbysiad am benderfyniad iddo o dan yr adrannau a ganlyn apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw i'r tribiwnlys—

(a) adran 20(4)(a);

(b) adran 21(2)(b);

(c) adran 23(2).

(2) Rhaid gwneud apêl o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad am y penderfyniad ("y cyfnod apelio").

(3) Ond caiff y tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl i'r cyfnod hwnnw o 28 o ddiwrnodau ddod i ben os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros y methiant i apelio cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben (a thros unrhyw oedi o ran gwneud cais am ganiatâd i apelio ar ôl yr amser priodol).

(4) Ar apêl o dan is-adran (1), caiff y tribiwnlys—

(a) cadarnhau'r penderfyniad;

(b) cyfarwyddo nad yw'r penderfyniad i gymryd effaith (neu, os yw'r penderfyniad wedi cymryd effaith, gyfarwyddo bod y penderfyniad i beidio â chael effaith);

(c) rhoi penderfyniad arall y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi ei wneud yn lle'r penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn;

(d) gwneud unrhyw orchymyn arall (gan gynnwys gorchymyn interim) y mae'r tribiwnlys yn ystyried ei fod yn briodol.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "y tribiwnlys" yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

*Gorfodi*

**29 Pŵer i wneud gwybodaeth yn ofynnol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwybodaeth") i berson a grybwyllir yn is-adran (2), yn ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth neu unrhyw ddogfen—

(a) sydd o ddisgrifiad a bennir yn yr hysbysiad, a

(b) y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(2) Y personau y caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi hysbysiad gwybodaeth iddynt yw—

(a) person sy’n darparu, neu’n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig;

(b) person y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y gall fod wedi darparu, neu y gall fod wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig;

(c) person sy’n cynorthwyo (neu sydd wedi cynorthwyo) gyda darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan berson a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b), neu sy’n hwyluso (neu sydd wedi hwyluso) darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan berson o’r fath.

(3) Rhaid i berson y dyroddir hysbysiad gwybodaeth iddo, os oes gan y person fynediad at yr wybodaeth neu’r ddogfen o dan sylw, ddarparu’r wybodaeth neu’r ddogfen—

(a) ar y ffurf sy’n ofynnol, a

(b) ar neu cyn—

(i) y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, neu

(ii) unrhyw ddyddiad arall y cytunir arno gan y person a Gweinidogion Cymru.

(4) Nid yw hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu ddogfen i Weinidogion Cymru os yw datgelu’r wybodaeth neu’r ddogfen honno wedi ei wahardd drwy unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol arall.

(5) Ni chaniateir i wybodaeth a roddir gan berson mewn ymateb i hysbysiad gwybodaeth gael ei defnyddio mewn achos troseddol yn erbyn y person hwnnw, ond nid yw hyn yn gymwys—

(a) os yw’r achos am drosedd o dan adran 34 (darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol);

(b) os yw’r achos am drosedd o wyrdroi cwrs cyfiawnder;

(c) os, yn ystod yr achos, dygir tystiolaeth sy’n ymwneud â’r wybodaeth gan y person, neu ar ei ran;

(d) os, yn ystod yr achos, gofynnir cwestiwn sy’n ymwneud â’r wybodaeth gan y person, neu ar ei ran.

(6) Rhaid i hysbysiad gwybodaeth gynnwys gwybodaeth am y canlyniadau o dan adran 33 o fethu â chydymffurfio â’r hysbysiad.

**30 Pŵer mynd i mewn ac archwilio at ddibenion gorfodi**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo trwydded llety ymwelwyr wedi ei rhoi i DLlY mewn cysylltiad â mangre yn unol â’r Rhan hon, a

(b) pan fo gan Weinidogion Cymru sail resymol dros gredu—

(i) bod y DLlY wedi rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â’r drwydded,

(ii) bod amod yn y drwydded wedi ei dorri.

(2) Pan fo’r adran hon yn gymwys a bo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus at ddiben dyfarnu a yw unrhyw un neu ragor o’r amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (1)(b) wedi codi, caiff person awdurdodedig (yn ddarostyngedig i is-adran (3)) fynd i mewn i’r fangre ar unrhyw adeg resymol.

(3) O ran person awdurdodedig—

(a) rhaid iddo roi rhybudd rhesymol i'r DLlY o'i fwriad i fynd i mewn i'r fangre;

(b) ni chaiff fynd i mewn i'r fangre drwy rym o dan yr adran hon;

(c) cyn mynd i mewn i fangre o dan yr adran hon, rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad y person y cyfeirir ato yn is-adran (7);

(d) caiff gymryd gydag ef unrhyw bersonau eraill ac unrhyw offer y mae'r person awdurdodedig yn ystyried eu bod yn briodol;

(e) caiff edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre, heblaw unrhyw ddogfennau sy'n eiddo i ymwelydd, eu copïo neu eu cymryd ymaith.

(4) Yn is-adran (3)(e), mae cyfeiriadau—

(a) at ddogfennau yn cynnwys gwybodaeth wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf;

(b) at ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—

(i) dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron neu ar ddyfeisiau storio electronig yn y fangre, a

(ii) dogfennau sydd wedi eu storio mewn man arall ond y gellir cael mynediad atynt drwy gyfrifiaduron yn y fangre.

(5) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (3)(e) yn cynnwys pŵer—

(a) i'w gwneud yn ofynnol i berson, heblaw ymwelydd sy'n preswylio yn y fangre, ddarparu dogfennau;

(b) i osod gofynion o ran y ffurf y darperir dogfennau ynddi (a gaiff gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau sydd wedi eu storio'n electronig);

(c) i edrych ar gyfrifiadur y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arno neu ar ddyfais storio electronig arall y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arni (heblaw dyfais sy'n eiddo i ymwelydd).

(6) Nid yw person awdurdodedig yn atebol mewn unrhyw achos sifil neu droseddol am unrhyw beth a wneir wrth honni cyflawni swyddogaethau'r person o dan yr adran hon os yw'r llys wedi ei fodloni y cyflawnwyd y weithred yn ddidwyll a bod sail resymol dros ei chyflawni.

(7) Yn y Rhan hon, ystyr "person awdurdodedig" yw person sydd wedi ei awdurdodi'n ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru i arfer y swyddogaethau a roddir gan y Rhan hon.

**31 Gwarant i fynd i mewn i fangre a'i harchwilio at ddibenion gorfodi**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw ynad heddwch wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) pan fo'r fangre yn fangre y mae trwydded wedi ei rhoi mewn perthynas â hi—

(i) bod sail resymol dros fynd i mewn i'r fangre at ddiben dyfarnu a yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a grybwyllir yn adran 30(1)(b) wedi codi, a

(ii) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod neu fod gwrthodiad yn cael ei ddisgwyl yn rhesymol neu fod rhoi hysbysiad i'r DLlY o fwriad person awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre yn debygol o danseilio diben y mynediad, neu

(b) pan na fo'r fangre yn fangre y mae trwydded llety ymwelwyr wedi ei rhoi mewn perthynas â hi, fod sail resymol dros gredu bod y fangre yn cael (neu wedi cael) ei defnyddio fel lle y mae llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn cael (neu wedi cael) ei gynnig neu ei ddarparu ynddo neu ohono.

(2) At ddibenion is-adran (1)(a)(ii), mae mynediad i fangre i'w drin fel pe bai wedi ei wrthod os na cheir ateb i gais am fynediad o fewn cyfnod rhesymol.

(3) Caiff yr ynad heddwch ddyroddi gwarant sy'n rhoi pŵer i fynd i mewn i'r fangre i berson awdurdodedig.

(4) Mae gwarant o dan yr adran hon yn rhoi pŵer i fynd i mewn i fangre—

(a) ar un achlysur yn unig, a

(b) ar adeg resymol yn unig, oni bai bod yr achos yn achos brys.

(5) O ran person sydd wedi ei awdurdodi i fynd i fangre o dan warant—

(a) cyn mynd i fangre o dan y warant, rhaid iddo, os gofynnir iddo wneud hynny—

(i) dangos tystiolaeth o awdurdodiad y person gan Weinidogion Cymru;

(ii) dangos y warant;

(iii) datgan diben mynd i'r fangre;

(b) caiff gymryd gydag ef unrhyw bersonau eraill ac unrhyw offer y mae'r person yn ystyried eu bod yn briodol;

(c) caiff edrych ar ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre, heblaw unrhyw ddogfennau sy'n eiddo i ymwelydd sy'n preswylio yn y fangre, eu copïo neu eu cymryd ymaith.

(6) Yn is-adran (5)(c), mae cyfeiriadau—

(a) at ddogfennau yn cynnwys gwybodaeth wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf;

(b) at ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre yn cynnwys—

(i) dogfennau sydd wedi eu storio ar gyfrifiaduron neu ar ddyfeisiau storio electronig yn y fangre, a

(ii) dogfennau sydd wedi eu storio mewn man arall ond y gellir cael mynediad atynt drwy gyfrifiaduron yn y fangre.

(7) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (5)(c) yn cynnwys pŵer—

(a) i'w gwneud yn ofynnol i berson, heblaw ymwelydd sy'n preswylio yn y fangre, ddarparu dogfennau;

(b) i osod gofynion o ran y ffurf y darperir dogfennau ynddi (a gaiff gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau sydd wedi eu storio'n electronig);

(c) i edrych ar gyfrifiadur y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arno neu ar ddyfais storio electronig arall y mae dogfennau wedi eu creu neu eu storio arni (heblaw dyfais sy'n eiddo i ymwelydd).

(8) Mae gwarant o dan yr adran hon yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 1 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y'i dyroddir.

*Troseddau*

**32 Llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre ddidrwydded: trosedd**

(1) Mae'n drosedd i berson ddarparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig, yng nghwrs masnach neu fusnes, mewn unrhyw fangre oni bai—

(a) pan fo'r person yn feddiannydd ar y fangre lle y mae'r person yn darparu'r llety, fod y person yn meddu ar drwydded llety ymwelwyr mewn cysylltiad â'r fangre;

(b) pan na fo'r person yn feddiannydd ar y fangre—

(i) bod y person yn darparu, neu'n cynnig darparu, y llety yn unol â threfniant gyda'r person a ddisgrifir ym mharagraff (a), a

(ii) bod y person hwnnw yn meddu ar drwydded llety ymwelwyr mewn perthynas â'r fangre.

(2) Nid yw person yn cyflawni trosedd o dan is-adran (1) os oedd gan y person esgus rhesymol dros y weithred neu'r anweithred sy'n dod o fewn yr is-adran honno.

(3) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**33 Trosedd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth**

(1) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio ag adran 29(3) yn cyflawni trosedd.

(2) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**34 Trosedd o ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn darparu unrhyw wybodaeth neu unrhyw ddogfen i Weinidogion Cymru, mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, sy'n anwir neu'n gamarweiniol, a

(b) yn gwybod bod yr wybodaeth neu'r ddogfen yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.

(2) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn darparu i berson arall unrhyw wybodaeth neu unrhyw ddogfen sy'n anwir neu'n gamarweiniol,

(b) yn gwybod bod yr wybodaeth neu'r ddogfen yn anwir neu'n gamarweiniol, neu'n ddi-hid o ran a yw'n anwir neu'n gamarweiniol, ac

(c) yn gwybod bod yr wybodaeth neu'r ddogfen i'w defnyddio gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(3) Mae'n amddiffyniad i berson sydd wedi ei gyhuddo o drosedd o dan is-adran (1) neu (2) ("P") ddangos—

(a) bod P wedi darparu'r wybodaeth neu'r ddogfen er mwyn cydymffurfio â hysbysiad o dan adran 29, a

(b) ar adeg darparu'r wybodaeth neu'r ddogfen, fod P wedi rhoi gwybod i'r person y darparodd yr wybodaeth neu'r ddogfen iddo fod P yn gwybod, neu'n amau, ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol.

(4) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) neu (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "yn anwir neu'n gamarweiniol" yw yn anwir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw fodd perthnasol.

**35 Trosedd o rwystro'n fwriadol**

(1) Mae person y cyfeirir ato yn is-adran (2) yn cyflawni trosedd os yw'r person yn rhwystro'n fwriadol berson awdurdodedig sy'n arfer swyddogaeth yn ddilys o dan y Bennod hon neu yn rhinwedd y Bennod hon.

(2) Y personau yw—

(a) person sy'n darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig;

(b) person y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y gall fod wedi darparu, neu y gall fod wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig;

(c) person sy'n cynorthwyo (neu sydd wedi cynorthwyo) gyda darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan berson a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b), neu sy'n hwyluso (neu sydd wedi hwyluso) darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig gan berson o'r fath.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

*Swyddogaethau eraill Gweinidogion Cymru*

**36 Dyletswydd i gynnal cofrestr mewn perthynas â thrwyddedu**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cofrestr o drwyddedau llety ymwelwyr.

(2) O ran y gofrestr a sefydlir o dan is-adran (1)—

(a) rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth a nodir yn is-adran (3);

(b) caiff gynnwys unrhyw wybodaeth arall mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(3) Rhaid i gofnod yn y gofrestr sy'n ymwneud â thrwydded a roddir i DLlY o dan adran 20(3) neu adran 21(2)(a) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) enw'r DLlY;

(b) unrhyw enw busnes a ddefnyddir gan y DLlY;

(c) cyfeiriad busnes y DLlY;

(d) y llety ymwelwyr rheoleiddiedig y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef;

(e) y fangre y mae'r drwydded yn ymwneud â hi;

(f) y rhif cofrestru a ddyroddir gan ACC i'r DLlY mewn cysylltiad â'r fangre o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5);

(g) y dyddiad y rhoddir y drwydded a, phan fo'n gymwys, y dyddiad y diwygir neu yr adnewyddir hi;

(h) y dyddiad y bydd y drwydded yn dod i ben;

(i) unrhyw wybodaeth mewn perthynas ag—

(i) y gofynion cymeradwyo;

(ii) amodau'r drwydded,

y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r wybodaeth a gynhwysir mewn cofnod yn y gofrestr o dan is-adran (2)(a).

(5) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi—

(a) enw unigolyn, oni bai—

(i) bod yr unigolyn yn cydsynio i'w enw gael ei gyhoeddi, neu

(ii) bod enw cyntaf a chyfenw'r unigolyn yn rhan o enw busnes DLlY;

(b) cyfeiriad unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn, oni bai—

(i) bod yr unigolyn yn cydsynio i'w gyfeiriad gael ei gyhoeddi, neu

(ii) bod y cyfeiriad yn gyfeiriad mangre lle y mae DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig.

(6) Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd is-adran (2)(b); ond ni chânt gyhoeddi gwybodaeth o dan yr is-adran hon os gwaherddir hwy rhag cyhoeddi'r wybodaeth honno drwy unrhyw ddeddfiad neu unrhyw reol gyfreithiol.

(7) At ddibenion yr adran hon, "cyfeiriad busnes" partneriaeth, corff corfforedig neu gorff anghorfforedig yw cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig neu ei brif swyddfa.

## 37 Esemptiadau rhag gofynion trwyddedu

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys mewn perthynas â pherson sydd wedi ei esemptio rhag y gofyniad i fod yn gofrestredig o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) yn rhinwedd rheoliadau o dan adran 5(2) o'r Ddeddf honno.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth at ddiben esemptio person y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo rhag unrhyw rwymedigaethau neu atebolrwyddau o dan y Bennod hon.

## 38 Ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ac mewn perthynas â chodi ffioedd mewn cysylltiad ag arfer eu swyddogaethau o dan y Bennod hon neu o dan reoliadau a wneir o dan y Bennod hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) (ymysg pethau eraill) ddarparu ar gyfer—

(a) swm, neu uchafswm, ffi;

(b) ffi, neu uchafswm ffi, i'w phennu neu ei bennu yn unol â rheoliadau;

(c) ffioedd gwahanol mewn amgylchiadau gwahanol;

(d) gostwng, hepgor neu ad-dalu ffioedd;

(e) y dull y mae ffioedd i gael eu talu;

(f) apelau yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â ffioedd;

(g) ffi i gael ei hadennill yn ddiannod fel dyled sifil.

(3) Cyn gwneud y rheoliadau cyntaf o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol a chaniatáu cyfnod o 12 wythnos o leiaf i'r personau hynny ymateb.

(4) Cyn gwneud yr ail reoliadau neu reoliadau dilynol o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**39 Pwerau i rannu gwybodaeth**

(1) Caiff person a grybwyllir yn is-adran (3) ddatgelu gwybodaeth i Weinidogion Cymru at ddibenion unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgelu gwybodaeth y maent yn ei dal mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan y Bennod hon i—

(a) person a grybwyllir yn is-adran (3), pan fo'r wybodaeth yn cael ei datgelu at ddibenion swyddogaethau'r person hwnnw;

(b) unrhyw berson (gan gynnwys person a grybwyllir yn is-adran (3)), at ddibenion unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan y Bennod hon.

(3) Y personau a grybwyllir yn yr is-adran hon yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru;

(c) ACC;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(e) cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(f) person a ddynodir yn awdurdod trwyddedu at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) (rheoleiddio tai rhent preifat);

(g) unrhyw berson arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

(4) Nid yw datgelu gwybodaeth o dan yr adran hon yn torri—

(a) unrhyw rwymedigaeth o ran cyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n datgelu'r wybodaeth, na

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei osod).

(5) Ond gweler hefyd adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) (diogelu gofynion ar gyfer prosesu data personol).

(6) Yn adran 18(1) (datgelu a ganiateir) o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)—

(a) hepgorer y "neu" ar ôl paragraff (i);

(b) ar ôl paragraff (k) mewnosoder ", neu

(l) os gwneir hynny i Weinidogion Cymru at ddiben unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 5)."

**40 Darpariaeth benodol sy'n gymwys mewn cysylltiad â thrwyddedau safleoedd gwersylla a thrwyddedau safleoedd carafannau**

(1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys os yw rheoliadau o dan adran 5(1)(b) (disgrifiad o "llety ymwelwyr rheoleiddiedig") yn rhagnodi llety ymwelwyr ar—

(a) safle gwersylla y mae adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p. 49) yn gymwys iddo;

(b) safle carafannau y mae Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62) yn gymwys iddo.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, wrth roi neu adnewyddu trwydded llety ymwelwyr mewn perthynas â darparu llety ymwelwyr o'r disgrifiad hwnnw, bennu'r amodau trwydded hynny (sy'n gymwys fesul achos unigol) y maent yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn—

(a) cyfyngu ar y cyfnod yn ystod unrhyw flwyddyn galendr y caniateir darparu'r llety ymwelwyr hwnnw ar y safle gwersylla neu'r safle carafannau perthnasol;

(b) cyfyngu ar gapasiti'r llety ymwelwyr hwnnw a ddarperir ar y safle gwersylla neu'r safle carafannau perthnasol;

(c) cynnal neu wella amwynder y tir y mae'r safle gwersylla neu'r safle carafannau perthnasol arno.

(3) Ni chaniateir pennu amodau o dan is-adran (2) ond gyda chytundeb y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal y mae'r safle gwersylla neu'r safle carafannau ynddi.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau addasu unrhyw ddarpariaeth yn y Bennod hon at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â'r amodau a bennir yn yr adran hon.

## PENNOD 3

### LLETY YMWELWYR RHEOLEIDDIEDIG: TELERAU CONTRACT

*Telerau contractiol a ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr*

**41 Contractau llety ymwelwyr**

(1) At ddibenion y Bennod hon, mae contract yn "contract llety ymwelwyr" os yw'r contract yn rhoi hawlogaeth i unigolyn ("ymwelydd") i breswylio mewn llety ymwelwyr rheoleiddiedig am ddim mwy na 31 o nosweithiau (pa un a yw'r nosweithiau hynny yn olynol ai peidio).

(2) Yn is-adran (1), nid yw "contract llety ymwelwyr" yn cynnwys—

(a) contract gwasanaeth,

(b) contract prentisiaeth, nac

(c) contract am wasanaethau y mae person sydd â hawlogaeth i breswylio yn y llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn darparu gwasanaeth odano i'r DLlY.

**42 Rhwymedigaeth gontractiol i sicrhau bod mangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr**

(1) Mae is-adran (2) wedi ei hymgorffori fel un o delerau contract llety ymwelwyr.

(2) Rhaid i'r DLlY sicrhau bod y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn ffit i fod yn llety ymwelwyr pan fydd gan yr ymwelydd, yn unol â'r contract, hawlogaeth i breswylio yn y llety.

(3) O ran is-adran (2)—

(a) caniateir iddi gael ei hymgorffori fel un o delerau contract llety ymwelwyr gydag addasiadau, neu

(b) nid oes angen iddi gael ei hymgorffori fel un o delerau contract llety ymwelwyr,

os yw effaith yr addasiadau, neu effaith peidio ag ymgorffori is-adran (2), yn fwy ffafriol i'r ymwelydd.

(4) Caiff ymwelydd sydd â hawlogaeth i breswylio yn y fangre yn unol â'r contract ddibynnu ar y teler yn y contract sy'n ymgorffori is-adran (2), ni waeth a yw'r ymwelydd yn barti i'r contract hwnnw.

(5) Nid yw ymgorffori is-adran (2) fel un o delerau contract llety ymwelwyr yn cael unrhyw effaith ar weithredu unrhyw ddeddfiad arall neu unrhyw reol gyfreithiol sy'n fwy ffafriol i'r ymwelydd.

(6) Nid yw teler mewn contract llety ymwelwyr sy'n anghydnaws ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn cael unrhyw effaith—

(a) y teler yn y contract sy'n ymgorffori is-adran (2) (gydag addasiadau neu hebddynt);

(b) is-adran (4);

(c) adran 43;

(d) adran 44.

(7) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriadau at is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at y teler mewn contract llety ymwelwyr sy'n ymgorffori is-adran (2) (gydag addasiadau neu hebddynt).

*Cyfyngiadau ar y rhwymedigaeth i sicrhau bod mangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr*

**43 Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: bai ymwelydd**

(1) Nid yw adran 42 yn gosod unrhyw atebolrwydd ar y DLlY os nad yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr yn llwyr neu'n bennaf oherwydd gweithred neu anweithred (gan gynnwys gweithred neu anweithred sy'n gyfystyr â diffyg gofal) ar ran yr ymwelydd.

(2) Nid yw'n ofynnol gan adran 42(2) i'r DLlY gyflawni gwaith nac atgyweiriadau os gellir priodoli'r cyflwr gwael yn llwyr neu'n bennaf i ddiffyg gofal ar ran yr ymwelydd.

(3) Ystyr "diffyg gofal" yw methu â gofalu'n briodol—

(a) am y fangre, a

(b) os yw'r fangre yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, am y rhannau cyffredin y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i'w defnyddio o dan y contract llety ymwelwyr.

**44 Cyfyngiadau ar y ddyletswydd ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr: gwybodaeth DLlY**

(1) Nid yw DLlY wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad o dan adran 42(2)—

(a) os nad yw'r DLlY yn ymwybodol, a

(b) os na ellid disgwyl yn rhesymol i'r DLlY fod yn ymwybodol,

nad yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

(2) Nid yw DLlY wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad o dan adran 42(2) os yw'r DLlY yn gwneud y fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr o fewn amser rhesymol ar ôl i'r DLlY ddod yn ymwybodol, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fod yn ymwybodol, nad yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw hawlogaeth ymwelydd i breswylio yn y llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn dechrau ar adeg pan fo'r DLlY yn ymwybodol, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fod yn ymwybodol, nad yw'r fangre yn ffit i fod yn llety ymwelwyr.

(4) At ddibenion dyfarnu beth yw "amser rhesymol", rhaid rhoi sylw i—

(a) i ba raddau yr amherir ar fwynhad yr ymwelydd o'r fangre, a

(b) a yw'n rhesymol ac yn bosibl cyflawni'r gwaith neu'r atgyweiriadau angenrheidiol cyn diwedd y cyfnod yn ystod yr hwn y mae gan yr ymwelydd hawlogaeth i breswylio yn y fangre.

## RHAN 4

## DARPARU GWYBODAETH I'R CYHOEDD AM LETY YMWELWYR

*Cyfeiriadur o fangreoedd llety ymwelwyr*

**45 Cyfeiriadur o lety ymwelwyr**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys mewn cysylltiad â gwybodaeth—

(a) y mae'n ofynnol i ACC ei chyhoeddi yn unol ag adran 4(4) o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) ac Atodlen 1 iddi (y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr), a

(b) y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ei chyhoeddi yn unol ag adran 36 o'r Ddeddf hon (y gofrestr o drwyddedau llety ymwelwyr).

(2) Rhaid i ACC a Gweinidogion Cymru sicrhau bod yr wybodaeth y mae'r is-adran hon yn gymwys iddi yn cael ei rhoi ar gael i'r cyhoedd, gyda'i gilydd, ar ffurf cyfeiriadur electronig o fangreoedd lle y darperir llety ymwelwyr.

(3) Yn unol â hynny, rhaid i'r cyfeiriadur gynnwys—

(a) mewn perthynas â phob mangre lle y darperir llety ymwelwyr—

(i) enw'r fangre (os oes gan y fangre enw);

(ii) cyfeiriad (gan gynnwys sir neu fwrdeistref sirol) y fangre;

(iii) enw'r DLlY (neu bob DLlY) sydd wedi ei gofrestru i ddarparu llety ymwelwyr yn y fangre (gan gynnwys unrhyw enw busnes a ddefnyddir gan y DLlY);

(iv) y rhif cofrestru a ddyroddir gan ACC i'r DLlY (neu i bob DLlY) mewn cysylltiad â'r fangre o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5);

(v) y disgrifiad o lety ymwelwyr a ddarperir yn y fangre gan y DLlY (neu gan bob DLlY);

(vi) enw'r llety ymwelwyr hwnnw (os oes gan y llety enw a'i fod yn wahanol i enw'r fangre);

(vii) uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya yn y llety ymwelwyr;

(viii) unrhyw wybodaeth arall o ddisgrifiad a roddir yn is-adran (1);

(b) mewn perthynas â mangre lle y mae DLlY yn darparu llety ymwelwyr rheoleiddiedig—

(i) manylion unrhyw drwydded y mae'r DLlY yn meddu arni mewn cysylltiad â'r fangre y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu rhoi ar gael yn rhinwedd is-adran (2) ;

(ii) cadarnhad o unrhyw esemptiad a roddir i'r DLlY rhag y gofyniad i fod yn drwyddedig mewn perthynas â'r fangre (neu'r rhan honno o'r fangre) lle y darperir y llety hwnnw, ac

(c) mewn perthynas â mangre lle y mae'r DLlY yn darparu llety ymwelwyr heblaw llety ymwelwyr rheoleiddiedig, gadarnhad nad yw'n ofynnol i'r DLlY fod yn drwyddedig o dan Ran 3 mewn perthynas â darparu'r llety hwnnw yn y fangre honno.

(4) Caiff ACC gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn y cyfeiriadur sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r ACC o dan—

(a) y Ddeddf hon;

(b) Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5);

(c) Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6);

(d) unrhyw reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn y cyfeiriadur sy'n ymwneud ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Deddf hon.

(6) Ond ni chaiff y cyfeiriadur gynnwys unrhyw wybodaeth na chaiff Gweinidogion Cymru nac ACC ei chyhoeddi yn rhinwedd—

(a) yn achos Gweinidogion Cymru, adran 36(5) o'r Ddeddf hon;

(b) yn achos ACC, adran 4(5) o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5).

*Hysbysebu a marchnata*

**46 Hysbysebu a marchnata: darparu gwybodaeth i'r cyhoedd**

(1) Ni chaiff person hysbysebu na marchnata fel arall lety ymwelwyr mewn mangre heb gynnwys, mewn modd ac ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru—

(a) y rhif cofrestru ar gyfer y fangre, a

(b) cyfarwyddiadau ynghylch sut i ddod o hyd i wybodaeth am y fangre, gan ddefnyddio'r rhif cofrestru hwnnw, yn y cyfeiriadur o lety ymwelwyr a roddir ar gael i'r cyhoedd o dan adran 45 (cyfeiriadur o lety ymwelwyr).

(2) At ddibenion yr adran hon, y rhif cofrestru ar gyfer y fangre yw—

(a) pan fo'r person yn DLlY, y rhif cofrestru a ddyroddir gan ACC i'r person mewn cysylltiad â'r fangre o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5), neu

(b) pan fo'r person yn hysbysebu neu'n marchnata'r llety yn unol â threfniant gyda DLlY, y rhif a ddyroddir i'r DLlY hwnnw fel y'i disgrifir ym mharagraff (a).

**47 Trosedd sy'n ymwneud â hysbysebu a marchnata mangreoedd**

(1) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn adran 46(1).

(2) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

## RHAN 5

## AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

### PENNOD 1

### AMRYWIOL

*Cymhwyso'r Ddeddf i achosion arbennig*

**48 Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig**

(1) Pan fo unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud o dan y Ddeddf hon i gael ei wneud gan bersonau neu mewn perthynas â phersonau sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth, rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n bartner ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud.

(2) Ond caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob partner gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt; ac os yw prif fan busnes y bartneriaeth yn yr Alban, caniateir hefyd iddo gael ei wneud gan unrhyw berson arall a awdurdodir gan y bartneriaeth.

(3) Pan fo unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud o dan y Ddeddf hon i gael ei wneud gan bersonau neu mewn perthynas â phersonau sy'n cynnal busnes fel corff anghorfforedig, rhaid iddo gael ei wneud gan bob person neu mewn perthynas â phob person sy'n aelod rheoli o'r corff ar yr adeg y'i gwneir neu y mae'n ofynnol ei wneud.

(4) Ond caniateir i unrhyw beth y mae'n ofynnol ei wneud neu y caniateir ei wneud gan bob aelod rheoli o'r corff gael ei wneud yn lle hynny gan unrhyw un neu ragor ohonynt.

(5) Mae atebolrwydd am dalu swm perthnasol o ganlyniad i unrhyw beth a wneir neu nas gwneir gan bersonau sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig yn atebolrwydd ar y cyd ac unigol i bob person sy'n aelod o'r bartneriaeth neu'r corff ar yr adeg y gwneir y peth neu'r adeg nas gwneir.

(6) At ddibenion yr adran hon—

(a) aelodau rheoli corff anghorfforedig yw—

(i) pob aelod o'r corff anghorfforedig sy'n dal swydd llywydd, cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, neu unrhyw swydd debyg;

(ii) os nad oes unrhyw swydd o'r fath, pob aelod sy'n dal swydd aelod o bwyllgor sy'n rheoli materion y corff;

(iii) os nad oes unrhyw swydd na phwyllgor o'r fath, pob aelod o'r corff;

(b) ystyr "swm perthnasol" yw swm sy'n daladwy mewn perthynas â chael neu gadw trwydded llety ymwelwyr.

**49 Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig**

Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag achosion pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, diddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu neu ei diwygio fel arall.

**50 Troseddau a gyflawnir gan bartneriaethau a chyrff anghorfforedig**

(1) Mae achos am drosedd o dan y Ddeddf hon yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan bartneriaeth i gael ei ddwyn yn enw'r bartneriaeth (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'r partneriaid).

(2) Mae achos am drosedd o dan y Ddeddf hon yr honnir ei bod wedi ei chyflawni gan gorff anghorfforedig i gael ei ddwyn yn enw'r corff (ac nid yn enw unrhyw un neu ragor o'i aelodau).

(3) Mae rheolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r corff anghorfforedig yn gorff corfforedig.

(4) Mae Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43) yn gymwys mewn achos am drosedd a ddygir yn erbyn partneriaeth neu gorff anghorfforedig fel y mae yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforedig.

(5) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth ar ei euogfarn am drosedd o dan y Ddeddf hon i'w thalu o asedau'r bartneriaeth.

(6) Mae dirwy a osodir ar gorff anghorfforedig ar ei euogfarn am drosedd o dan y Ddeddf hon i'w thalu o gronfeydd y corff.

**51 Atebolrwydd troseddol uwch-swyddogion etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo trosedd o dan y Ddeddf hon yn cael ei chyflawni gan—

(a) corff corfforedig;

(b) partneriaeth;

(c) corff anghorfforedig.

(2) Os profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gan y canlynol, neu gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i esgeulustod ar ran y canlynol—

(a) un o uwch-swyddogion y corff corfforedig neu'r bartneriaeth neu'r corff anghorfforedig, neu

(b) unrhyw berson sy’n honni ei fod yn gweithredu mewn rhinwedd a grybwyllir ym mharagraff (a),

mae’r uwch-swyddog hwnnw neu’r person hwnnw (yn ogystal â’r corff corfforedig, y bartneriaeth neu’r corff anghorfforedig) yn euog o’r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a’i gosbi yn unol â hynny.

(3) Yn yr adran hon, ystyr “uwch-swyddog” yw—

(a) mewn perthynas â chorff corfforedig, cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i’r corff corfforedig;

(b) mewn perthynas â phartneriaeth, partner yn y bartneriaeth;

(c) mewn perthynas â chorff anghorfforedig—

(i) aelod o’r corff anghorfforedig sy’n dal swydd llywydd, cadeirydd, trysorydd, ysgrifennydd, neu unrhyw swydd debyg;

(ii) aelod sy’n dal swydd aelod o bwyllgor sy’n rheoli materion y corff.

(4) Yn is-adran (3)(a), ystyr “cyfarwyddwr”, mewn perthynas â chorff corfforedig y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o’r corff corfforedig.

**52 Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan neu o dan y Ddeddf hon mewn perthynas ag achosion pan fo DLlY yn marw, yn mynd yn analluog neu’n dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu’n peidio â bodoli fel arall, diddymu darpariaeth o’r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) ynglŷn â’r amgylchiadau pryd y mae DLlY yn mynd yn analluog neu’n dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu’n peidio â bod yn analluog neu’n ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu’n peidio â bodoli fel arall;

(b) sy’n rhagnodi amgylchiadau pryd y ceir caniatáu dilyniant yn narpariaeth llety ymwelwyr rheoleiddiedig (gweler Pennod 2 o Ran 3) ar sail interim neu dros dro, pan fo DLlY wedi marw, wedi mynd yn analluog neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu wedi peidio â bodoli fel arall;

(c) sy’n gymwys pa un a yw unrhyw un arall yn cynnal busnes y DLlY ar ôl i’r DLlY farw, mynd yn analluog neu ddod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd, neu beidio â bodoli fel arall, ai peidio;

(d) ar gyfer—

(i) trosedd o dan y Rhan hon i beidio â bod yn gymwys;

(ii) troseddau diannod y gellir eu cosbi drwy ddirwy mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â’r rheoliadau;

(iii) apelau.

**53 Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i sicrhau dilyniant wrth gymhwyso’r Ddeddf hon pan drosglwyddir busnes DLlY oddi wrth y DLlY i berson arall fel busnes gweithredol.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth (ymysg pethau eraill)—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu am y trosglwyddiad;

(b) i unrhyw atebolrwydd neu ddyletswydd ar ran y trosglwyddwr o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon, ddod yn atebolrwydd neu'n ddyletswydd i'r trosglwyddai;

(c) i unrhyw beth a wnaed cyn y trosglwyddiad gan y trosglwyddwr neu mewn perthynas â'r trosglwyddwr gael ei drin at ddibenion y Ddeddf hon fel pe bai wedi ei wneud gan y trosglwyddai neu mewn perthynas â'r trosglwyddai;

(d) ynglŷn â dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gymwys yn ddarostyngedig i amodau, ac yn benodol cânt—

(a) darparu ei bod yn ofynnol cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru cyn cymhwyso unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (2)(b) i (d) i drosglwyddwr a throsglwyddai;

(b) gwneud darpariaeth ynglŷn â gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth a dyfarnu arnynt.

(4) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer—

(a) troseddau diannod y gellir eu cosbi drwy ddirwy mewn cysylltiad â methiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau;

(b) apelau.

(5) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad perthnasol.

*Troseddau: hysbysiadau cosb*

**54 Hysbysiadau cosb**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb i berson os ydynt wedi eu bodloni bod y person wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf hon.

(2) Mae hysbysiad cosb yn hysbysiad sy'n cynnig y cyfle i'r person i ryddhau ei hun rhag unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi drwy dalu i Weinidogion Cymru swm a bennir yn yr hysbysiad yn unol â thelerau'r hysbysiad.

(3) Os yw person yn cael hysbysiad cosb, ni chaniateir i achos am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi gael ei ddwyn cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(4) Os yw person sy'n cael hysbysiad cosb yn talu'r swm a bennir yn yr hysbysiad yn unol â thelerau'r hysbysiad, ni all y person gael ei euogfarnu o'r drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth—

(a) o ran ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb;

(b) o ran y swm sy'n daladwy o dan hysbysiad cosb a'r amser y mae'r swm i gael ei dalu ynddo (gan gynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i swm gwahanol fod yn daladwy mewn perthynas â throseddau gwahanol ac yn unol â'r amser erbyn pryd y caiff y swm ei dalu);

(c) sy'n pennu'r ffyrdd y caniateir i swm gael ei dalu ynddynt;

(d) o ran y cofnodion sydd i'w cadw mewn perthynas â hysbysiadau cosb;

(e) ynghylch yr amgylchiadau pan ganiateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl, gan gynnwys darpariaeth ynghylch—

(i) ad-dalu unrhyw swm a delir cyn y tynnir hysbysiad yn ôl, a

(ii) yr amgylchiadau pan na chaniateir i achos am drosedd gael ei ddwyn er bod hysbysiad wedi ei dynnu'n ôl.

## PENNOD 2

CYFFREDINOL

### 55 Canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar Rannau 3 a 4, ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rhannau hynny.

(2) Cyn dyroddi canllawiau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

### 56 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau—

(a) gwneud darpariaeth sy'n ddeilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu sy'n ganlyniadol ar unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon;

(b) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon) ac mae hyn yn cynnwys—

(a) os yw rheoliadau o dan adran 5(1)(b) (ystyr "llety ymwelwyr rheoleiddiedig") yn rhagnodi disgrifiad o lety ymwelwyr y mae adran 269 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 (p. 49) (trwyddedu safleoedd gwersylla) yn gymwys iddo, datgymhwyso'r adran honno o ran Cymru;

(b) os yw rheoliadau o dan adran 5(1)(b) (ystyr "llety ymwelwyr rheoleiddiedig") yn rhagnodi disgrifiad o lety ymwelwyr y mae Rhan 1 o Ddeddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 (p. 62) (trwyddedu safleoedd carafannau) yn gymwys iddo, datgymhwyso'r Rhan honno o ran Cymru.

### 57 Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) cynnal adolygiad o weithrediad ac effaith Rhannau 3 i 5 o'r Ddeddf hon, a

(b) cyhoeddi, mewn unrhyw fodd y maent yn ystyried ei fod yn briodol, adroddiad ar yr adolygiad.

(2) Rhaid cwblhau'r adolygiad o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r Rhannau hynny i rym yn llawn.

(3) Wrth gynnal adolygiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

(4) Rhaid gosod adroddiad o dan is-adran (1) gerbron Senedd Cymru.

**58 Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

(1) Mae pŵer neu ddyletswydd i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol Cymreig.

(2) Mae pŵer neu ddyletswydd i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol;

(b) i wneud—

(i) darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol neu ddarpariaeth ganlyniadol;

(ii) darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn addasu, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir, a chan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(4) Mae rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r adrannau a ganlyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd—

(a) adran 5(1)(b) (ystyr llety ymwelwyr rheoleiddiedig);

(b) adran 6(2) (ystyr ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr);

(c) adran 17(1) (amodau pellach);

(d) adran 19(3) (gofynion cymeradwyo);

(e) adran 24(1) (torri amodau trwydded: hysbysiadau adfer);

(f) adran 25(2) (trwydded yn dod i ben ac adnewyddu trwydded);

(g) adran 26(1) (diwygio trwydded);

(h) adran 27 (trwyddedau dros dro);

(i) y rheoliadau cyntaf o dan adran 38(1) (ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau llety ymwelwyr);

(j) adran 40(4) (darpariaeth benodol sy'n gymwys mewn cysylltiad â thrwyddedau safleoedd gwersylla a thrwyddedau safleoedd carafannau);

(k) adran 49 (pŵer i wneud darpariaeth bellach ynglŷn â phartneriaethau a chyrff anghorfforedig);

(l) adran 52(1) (pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â marwolaeth, analluedd ac ansolfedd);

(m) adran 53(1) (pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol);

(n) adran 54(5) (hysbysiadau cosb);

(o) adran 56(1) (pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.) pan fo'r rheoliadau yn diwygio, yn addasu neu'n diddymu deddfiad a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon).

(5) Mae unrhyw reoliadau eraill o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

(6) Yn is-adran (4), ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw'r canlynol—

(a) Deddf gan Senedd Cymru;

(b) Mesur gan y Cynulliad;

(c) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.

**59 Dehongli a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio**

(1) Yn y Ddeddf hon mae i'r termau a ganlyn yr ystyron a ganlyn—

ystyr "ACC" ("*WRA*") yw Awdurdod Cyllid Cymru;

mae "adeilad" ("*building*") yn cynnwys siale, lodies, caban gwyliau neu strwythur tebyg;

mae i "amwynderau, cyfleusterau a gwasanaethau i dwristiaid yng Nghymru" *("tourist amenities, facilities and services in Wales")* yr ystyr a roddir gan adran 2(4);

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*") yw awdurdod tân ac achub a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

ystyr "cofrestredig" ("*registered*"), oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw cofrestredig o dan Ran 2 o Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5) ac mae cyfeiriadau at y gofrestr neu at gofnod yn y gofrestr i'w dehongli yn unol â hynny;

mae i "contract llety ymwelwyr" ("*visitor accommodation contract*") yr ystyr a roddir yn adran 41;

mae i "darparu" ("*providing*") neu "yn cynnig darparu" ("*offering to provide*"), yng nghyd-destun llety ymwelwyr, yr ystyr a roddir yn adran 5(7);

mae i "darparwr llety ymwelwyr" ("*visitor accommodation provider*") (neu "DLlY" ("*VAP*")) yr ystyr a roddir yn adran 5(7);

mae i "ffitrwydd i fod yn llety ymwelwyr" ("*fitness for visitor accommodation*") yr ystyr a roddir yn adran 6;

mae i "gofynion cymeradwyo" ("*approval requirements*") yr ystyr a roddir yn adran 19(1);

mae i "llety ymwelwyr" ("*visitor accommodation*") yr ystyr a roddir yn adran 5(7);

mae i "llety ymwelwyr rheoleiddiedig" ("*regulated visitor accommodation*") yr ystyr a roddir yn adran 5(1);

mae i "mangre" ("*premises*") yr ystyr a roddir yn adran 5(7);

mae i "safon gyffredinol o ran ffitrwydd" ("*general fitness standard*") yr ystyr a roddir yn adran 7;

mae i "safonau ffitrwydd penodol" ("*specific fitness standards*") yr ystyr a roddir yn adran 8;

mae i "ar sail tymor byr" ("*short-term basis*") yr ystyr a roddir yn adran 5(7);

mae i "ymwelydd" ("*visitor*") yr ystyr a roddir yn adran 5(7).

(2) Yn y Ddeddf hon, mae cyfeiriad at rywbeth a wneir o dan y Ddeddf hon, neu o dan ddarpariaeth o'r Ddeddf hon, yn cynnwys rhywbeth a wneir yn rhinwedd y Ddeddf hon neu'r ddarpariaeth honno fel y digwydd.

**60 Dod i rym**

(1) Daw'r Bennod hon, heblaw adran 55 (canllawiau), i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig, ac eithrio—

(a) adrannau 16, 24, 25(2) a (3), 27, 37 a 38, a ddaw i rym ar 5 Mawrth 2029 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw, a

(b) gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon, a ddaw i rym ar 4 Mawrth 2030 os nad ydynt wedi dod i rym cyn y diwrnod hwnnw.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol Cymreig ddiwygio'r dyddiad y cyfeirir ato yn is-adran (2)(b) i ddiwrnod nad yw'n hwyrach na 2 flynedd ar ôl y diwrnod hwnnw'.

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) wneud—

(a) darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym;

(b) darpariaeth wahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol.

**61 Enw byr**

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel—

(a) Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026, neu

(b) the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026.

## ATODLEN 1
*(a gyflwynir gan adran 4(2))*

### DIWYGIO DEDDF DATBLYGU TWRISTIAETH 1969

1 Mae Deddf Datblygu Twristiaeth 1969 (p. 51) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

2 Yn adran 1(2)(b), yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers".

3 Yn adran 2—

(a) yn y geiriau ar ôl is-adran (1)(b)—

(i) yn lle ", VisitScotland and the National Assembly for Wales" rhodder "and VisitScotland";

(ii) yn lle ", Scotland and Wales" rhodder "and Scotland";

(b) yn y geiriau o flaen paragraff (a) yn is-adran (2)—

(i) yn lle "(4) and (4A)" rhodder "and (4)";

(ii) hepgorer "and the National Assembly for Wales";

(c) yn is-adran (2)(e), hepgorer "or the National Assembly for Wales";

(d) yn is-adran (3), hepgorer "or the National Assembly for Wales";

(e) hepgorer is-adran (4A);

(f) yn is-adran (5)—

(i) yn lle ", VisitScotland and the National Assembly for Wales" rhodder "and VisitScotland";

(ii) hepgorer "or the National Assembly for Wales" ar ôl "the Boards" yn y ddau le y mae'n digwydd;

(iii) hepgorer "and the National Assembly for Wales" ar ôl "those Boards";

(g) yn is-adran (6)—

(i) hepgorer "and the National Assembly for Wales";

(ii) yn lle "the National Assembly for Wales" rhodder "the Welsh Ministers";

(h) hepgorer is-adran (7A);

(i) hepgorer is-adran (8A);

(j) ar ôl is-adran (9) mewnosoder—

"(10) See Part 2 of the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Act 2026 (asc 00) for the corresponding functions of the Welsh Ministers in relation to promoting the development of tourism in Wales."

4 Yn adran 3—

(a) yn is-adran (1), yn lle "National Assembly for Wales", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "Welsh Ministers";

(b) yn is-adran (4), yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers";

(c) yn is-adran (5), yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers".

5 Hepgorer adran 4A.

6 Yn adran 5(1)—

(a) yn lle “, VisitScotland and the National Assembly for Wales” rhodder “and VisitScotland”;

(b) yn lle “, Scotland and Wales” rhodder “and Scotland”.

7 Yn Atodlen 2—

(a) ym mharagraff 1(1A)—

(i) yn lle “National Assembly for Wales” rhodder “Welsh Ministers”;

(ii) ar ôl “grant” mewnosoder “under a scheme prepared in accordance with section 3”;

(iii) yn lle “the Assembly” rhodder “them”;

(b) ym mharagraff 2(1)—

(i) yn lle “National Assembly for Wales” rhodder “Welsh Ministers”;

(ii) hepgorer “or (as the case may be) the Assembly”;

(iii) ar ôl “under this Act” mewnosoder “or (as the case may be) the Welsh Ministers under section 3”;

(c) ym mharagraff 3—

(i) yn is-baragraff (1), hepgorer “or the National Assembly for Wales”;

(ii) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Sub-paragraph (1) applies in relation to the Welsh Ministers and any person who has received a grant under a scheme prepared in accordance with section 3 from them as it applies in relation to a Tourist Board and the corresponding person.”

# ATODLEN 2
*(a gyflwynir gan adran 14(3))*

## DIWYGIADAU SY'N YMWNEUD Â'R GOFRESTR O DDARPARWYR LLETY YMWELWYR

*Diwygio Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5)*

1 Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

2 Yn adran 3 (ystyr "darparwr llety ymwelwyr"), yn is-adran (5)(b) ar ôl "benodol" mewnosoder "(ac ni waeth a yw cofnod y person yn y gofrestr yn dangos bod y person yn anweithredol)".

3 Yn adran 4 (cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr)—

(a) yn is-adran (4)—

(i) daw'r geiriau "yr wybodaeth a gynhwysir yn y gofrestr yn rhinwedd Atodlen 1" yn baragraff (a);

(ii) ar ôl "Atodlen 1" mewnosoder "ac adrannau 16A ac 16D;

(b) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon ar gyfer pob DLlY;

(c) y rhif cofrestru a bennir o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob mangre";

(b) yn is-adran (7)—

(i) hepgorer yr "a" ar ôl paragraff (a);

(ii) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(aa) ystyr "DLlY trwyddedig" yw DLlY sydd yn meddu ar drwydded llety ymwelwyr o dan Ran 3 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00), a".

4 Yn adran 6 (ceisiadau i fod yn gofrestredig)—

(a) yn is-adran (1) yn lle "14" rhodder "14A";

(b) yn is-adran (3)(b) ar ôl "hwnnw" mewnosoder—

"sy'n pennu—

(i) rhif cofrestru ar gyfer y DLlY, a

(ii) rhif cofrestru mewn cysylltiad â phob mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr".

5 Yn adran 8 (pŵer i gofrestru personau pan na fo cais wedi ei wneud i ACC), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Os yw ACC yn cofrestru person o dan is-adran (1), rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r person sy'n pennu—

(a) rhif cofrestru ar gyfer y person, a

(b) rhif cofrestru mewn cysylltiad â phob mangre lle y mae'r person yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr."

6 Yn adran 9 (dyletswydd i hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau), yn is-adran (3)(b)—

(a) daw'r geiriau "yn pennu'r cywiriadau a wnaed i gofnod y DLlY" yn is-baragraff (i);

(b) ar ôl yr is-baragraff hwnnw mewnosoder ", a

(ii) pan fo'r cywiriad yn golygu ychwanegu mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr at gofnod y DLlY yn y gofrestr, yn pennu rhif cofrestru mewn cysylltiad â'r fangre honno,".

7 Yn adran 10 (cosbau am fethu â hysbysu ACC am newidiadau ac anghywirdebau), yn is-adran (5)—

(a) ar ddiwedd paragraff (a), hepgorer "neu";

(b) ar ôl paragraff (b) mewnosoder ", neu

(c) adran 16C (cosbau sy'n ymwneud â hysbysiadau o dan adrannau 16A ac 16B)."

8 Yn adran 11 (pŵer i newid y gofrestr pan na fo hysbysiad wedi ei roi i ACC)—

(a) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

"(3A) Pan fo ACC yn gwneud newid o dan is-adran (1) sy'n golygu ychwanegu mangre lle y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr at gofnod y DLlY yn y gofrestr, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLlY, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl gwneud y newid, yn pennu rhif cofrestru mewn cysylltiad â'r fangre honno."

(b) yn is-adran (4), yn lle'r geiriau o "y mae'r DLlY yn rhoi hysbysiad i ACC" hyd at y diwedd rhodder "y mae'r DLlY—

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC—

(i) os yw'r cofnod yn anghywir, sy'n darparu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i wneud cofnod y DLlY yn gywir, neu

(ii) sy'n cadarnhau bod y cofnod yn gywir, neu

(b) yn gwneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr."

9 Ar ôl adran 11 mewnosoder—

**"11A Newidiadau ac anghywirdebau sy'n ymwneud â mangreoedd: DLlYau trwyddedig**

Pan fo cofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr yn cael ei newid o dan adran 9 neu 11 oherwydd nad yw'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig mewn mangre y mae'r DLlY wedi ei drwyddedu mewn cysylltiad â hi (ond bod y DLlY yn parhau i ddarparu, neu gynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre arall neu fangreoedd eraill y mae'r DLlY wedi ei gofrestru mewn cysylltiad â hi neu â hwy)—

(a) mae'r DLlY yn parhau i fod yn gofrestredig mewn cysylltiad â'r fangre honno neu'r mangreoedd hynny, a

(b) rhaid i gofnod y DLlY yn y gofrestr ddangos nad yw'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr rheoleiddiedig yn y fangre honno."

10 Yn adran 14 (dileu person o'r gofrestr ar gais i ACC)—

(a) yn lle is-adran (1) rhodder—

"(1) Caiff person sydd â chofnod yn y gofrestr wneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr (ond gweler adran 14A am amgylchiadau pryd y mae rhaid i berson wneud cais i ACC i gael ei ddileu o'r gofrestr).";

(b) hepgorer is-adran (5).

11 Ar ôl adran 14 mewnosoder—

*"Gofyniad i bersonau penodol wneud cais i gael eu dileu o'r gofrestr*

**14A Cais mandadol i berson gael ei ddileu o'r gofrestr**

(1) Rhaid i berson—

(a) nad yw'n DLlY trwyddedig, a

(b) nad yw'n dod o fewn is-adran (2),

cyn yr 31ain diwrnod yn olynol nad yw'r person hwnnw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, wneud cais o dan adran 14 i gael ei ddileu o'r gofrestr.

(2) Os—

(a) yw person yn peidio â bod yn DLlY trwyddedig, a

(b) yn ystod y cyfnod o 31 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y peidiodd y person â bod yn DLlY trwyddedig, nad yw person—

(i) yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre;

(ii) yn dod yn DLlY trwyddedig,

rhaid i'r person, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, wneud cais o dan adran 14 i gael ei ddileu o'r gofrestr.

(3) At ddibenion yr adran hon—

(a) rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod—

(i) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan adran 18(1) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) ("Deddf 2026"), ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais o dan adran 20(1) neu adran 21(2) o'r Ddeddf honno;

(ii) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 28 o Ddeddf 2026, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl;

(b) mae'r diwrnodau yn union cyn ac ar ôl cyfnod a grybwyllir ym mharagraff (a) i'w trin fel pe baent yn ddiwrnodau olynol.

(4) At ddibenion y Rhan hon, nid yw person wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre os nad yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru y mae'r person yn ei feddiannu."

12 Yn adran 15 (cosbau pan fo person yn methu â gwneud cais i gael ei ddileu o'r gofrestr), yn is-adran (1)—

(a) yn lle "14(1)" rhodder "14A(1) neu (2)";

(b) yn is-adran (2), yn lle "yw'r person" rhodder "nad yw'r person yn DLlY trwyddedig ac os yw'r person";

(c) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) At ddibenion is-adrannau (2) a (3), rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod yn ystod—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae person yn gwneud cais am drwydded llety ymwelwyr o dan adran 18(1) o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 ("Deddf 2026"), ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir ar y cais o dan adran 20(1) neu adran 21(2) o'r Ddeddf honno;

(b) y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae penderfyniad sy'n ymwneud â rhoi neu ddirymu trwydded llety ymwelwyr yn dod yn ddarostyngedig i apêl o dan adran 28 o Ddeddf 2026, ac sy'n dod i ben ar y diwrnod y dyfernir yn derfynol ynghylch yr apêl neu y tynnir yr apêl yn ôl."

13 Yn adran 16 (pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud)—

(a) yn is-adran (1) yn lle "14(1)" rhodder "14A";

(b) yn is-adran (4)(a), yn lle "y peidiodd y person â bod yn DLlY" rhodder "y darparodd y person lety ymwelwyr ddiwethaf, neu (os yw'n hwyrach) y cynigiodd y person ddarparu llety ymwelwyr ddiwethaf".

14 Ar ôl adran 16 (pŵer i ddileu person o'r gofrestr pan nad oes cais wedi ei wneud) mewnosoder—

*"Hysbysiad am anweithgarwch gan DLlYau trwyddedig*

**16A Hysbysiad i ACC fod DLlY trwyddedig yn anweithredol**

(1) Nid yw'r adran hon nac adrannau 16B i 16E yn gymwys ond mewn perthynas â DLlYau trwyddedig.

(2) Rhaid i DLlY trwyddedig, cyn yr 31ain diwrnod yn olynol nad yw'r DLlY hwnnw wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, roi hysbysiad i ACC nad yw'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr ("hysbysiad am anweithgarwch").

(3) Rhaid i hysbysiad am anweithgarwch—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan ACC, a

(b) cynnwys unrhyw wybodaeth a bennir gan ACC.

(4) Rhaid i ACC, os yw DLlY trwyddedig yn rhoi hysbysiad am anweithgarwch iddo sy'n cydymffurfio ag is-adran (3)—

(a) dangos yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr fod y DLlY yn anweithredol, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r DLlY yn cadarnhau'r dyddiad y newidiwyd y gofrestr yn unol â pharagraff (a).

(5) Os bydd ACC yn penderfynu peidio â dangos yng nghofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr fod y DLlY yn anweithredol, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLlY hwnnw—

(a) yn pennu'r rheswm pam, a

(b) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

**16B Hysbysiad i ACC fod DLlY trwyddedig wedi ailddechrau gweithgarwch**

(1) Pan fo cofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr yn dangos bod y DLlY yn anweithredol, rhaid i'r DLlY, ar neu cyn y diwrnod y mae'r DLlY yn ailddechrau cynnig darparu, neu (os yw'n gynharach) yn ailddechrau darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, roi hysbysiad i ACC fod y DLlY yn ailddechrau darparu, neu'n ailddechrau cynnig darparu, llety ymwelwyr ("hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch").

(2) Rhaid i hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch—

(a) bod ar unrhyw ffurf, a chael ei wneud mewn unrhyw fodd, a bennir gan ACC,

(b) nodi'r dyddiad y mae'r DLlY trwyddedig yn ailddechrau darparu, neu'n ailddechrau cynnig darparu, llety ymwelwyr, ac

(c) cynnwys unrhyw wybodaeth arall a bennir gan ACC.

(3) Rhaid i ACC, os yw DLlY yn rhoi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch iddo sy'n cydymffurfio ag is-adran (2)—

(a) dileu o gofnod y DLlY trwyddedig yn y gofrestr yr hyn sy'n dangos bod y DLlY yn anweithredol, a

(b) dyroddi hysbysiad i'r DLlY yn cadarnhau'r dyddiad y newidiwyd y gofrestr yn unol â pharagraff (a).

(4) Os yw ACC yn penderfynu peidio â dileu o gofnod y DLlY trwyddedig yn y gofrestr yr hyn sy'n dangos bod y DLlY yn anweithredol, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLlY hwnnw—

(a) yn pennu'r rheswm pam, a

(b) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

**16C Cosbau pan fo DLlY trwyddedig yn methu â rhoi hysbysiad o dan adran 16A neu 16B**

(1) Mae DLlY trwyddedig sy'n methu â chydymffurfio ag adran 16A(2) neu 16B(1) yn agored i gosb o £100.

(2) Os yw'r DLlY trwyddedig—

(a) yn methu â rhoi'r hysbysiad o dan sylw i ACC erbyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y dyroddir hysbysiad cosb sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) ("y cyfnod cosbi cychwynnol"), a

(b) yn ystod y cyfnod hwnnw—

(i) yn achos methiant i gydymffurfio ag adran 16A(2), heb ddarparu, neu heb gynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, neu

(ii) yn achos methiant i gydymffurfio ag adran 16B(1), wedi darparu, neu wedi cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre,

mae'r DLlY hwnnw yn agored i gosb, i'w chyfrifo o dan is-adran (3).

(3) Y gosb y mae DLlY trwyddedig yn agored iddi o dan is-adran (2) yw—

(a) £10 am bob diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod cosbi cychwynnol, hyd at a chan gynnwys y 30ain diwrnod, y mae'r methiant yn parhau ac—

(i) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag adran 16A(2), nad yw'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre;

(ii) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag adran 16B(1), y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre, a

(b) £1000 am yr 31ain diwrnod y mae'r methiant yn parhau ac—

(i) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag adran 16A(2), nad yw'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre;

(ii) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag adran 16B(1), y mae'r DLlY yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn unrhyw fangre.

(4) Wrth gyfrifo'r cyfnod cosbi cychwynnol, rhaid diystyru unrhyw ddiwrnod pan fo penderfyniad sy'n ymwneud â'r gosb o dan is-adran (1) yn destun—

(a) adolygiad nad yw hysbysiad am ei gasgliadau wedi ei ddyroddi hyd yma, neu

(b) apêl nad yw wedi ei dyfarnu'n derfynol nac wedi ei thynnu'n ôl hyd yma.

**16D Pwerau i newid cofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr pan na fo hysbysiad o dan adran 16A wedi ei roi**

(1) Pan na fo DLlY trwyddedig wedi rhoi hysbysiad am anweithgarwch i ACC, caiff ACC ddangos yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr fod y DLlY yn anweithredol os yw ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r DLlY o dan adran 16A(2) roi hysbysiad am anweithgarwch iddo.

(2) Cyn i ACC newid, o dan is-adran (1), gofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLlY hwnnw—

(a) yn pennu'r rhesymau pam y mae ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r DLlY roi hysbysiad o dan adran 16A(2),

(b) yn rhoi gwybod i'r DLlY y bydd ACC, ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, yn dangos yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr fod y DLlY yn anweithredol oni bai—

(i) bod y DLlY, cyn y dyddiad hwnnw, yn rhoi hysbysiad am anweithgarwch sy'n cydymffurfio ag adran 16A(3), neu

(ii) bod ACC wedi ei fodloni nad yw'n ofynnol i'r DLlY roi hysbysiad am anweithgarwch iddo, ac

(c) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan is-adran (2)(b) fod o leiaf 30 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Mae DLlY trwyddedig y mae ei gofnod yn y gofrestr yn cael ei newid o dan yr adran hon yn parhau i fod yn agored i gosbau o dan adran 16C; ond mae'r DLlY i'w drin at ddibenion yr adran honno fel pe bai wedi rhoi hysbysiad am anweithgarwch o'r adeg y mae'r DLlY—

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC yn nodi'r dyddiad y mae'r DLlY yn ei ystyried fel y dyddiad y darparodd y DLlY lety ymwelwyr ddiwethaf, neu (os yw'n hwyrach) y cynigiodd y DLlY ddarparu llety ymwelwyr ddiwethaf, neu

(b) yn rhoi hysbysiad i ACC am ailddechrau gweithgarwch o dan adran 16B.

**16E Pwerau i newid cofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr pan na fo hysbysiad o dan adran 16B wedi ei roi**

(1) Pan na fo DLlY trwyddedig wedi rhoi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch i ACC, caiff ACC ddileu'r hyn yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr sy'n dangos bod y DLlY yn anweithredol os yw ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol o dan adran 16B(1) i'r DLlY roi hysbysiad o'r fath iddo.

(2) Cyn i ACC, o dan is-adran (1), ddileu'r hyn yng nghofnod y DLlY trwyddedig yn y gofrestr sy'n dangos bod y DLlY yn anweithredol, rhaid i ACC ddyroddi hysbysiad i'r DLlY hwnnw—

(a) yn pennu'r rhesymau pam y mae ACC yn ystyried ei bod yn ofynnol i'r DLlY roi hysbysiad o dan adran 16B(1),

(b) yn rhoi gwybod i'r DLlY y bydd ACC, ar y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad, yn dileu'r hyn yng nghofnod y DLlY yn y gofrestr sy'n dangos bod y DLlY yn anweithredol oni bai—

(i) bod y DLlY, cyn y dyddiad hwnnw, yn rhoi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch sy'n cydymffurfio ag adran 16B(2), neu

(ii) bod ACC wedi ei fodloni nad yw'n ofynnol i'r DLlY roi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch iddo, ac

(c) yn nodi gwybodaeth am hawliau adolygu ac apelio.

(3) Rhaid i'r dyddiad a bennir o dan is-adran (2)(b) fod o leiaf 30 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Mae DLlY trwyddedig y mae ei gofnod yn y gofrestr yn cael ei newid o dan yr adran hon yn parhau i fod yn agored i gosbau o dan adran 16C; ond mae'r DLlY i'w drin at ddibenion yr adran honno fel pe bai wedi rhoi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch o'r adeg y mae'r DLlY—

(a) yn rhoi hysbysiad i ACC yn nodi'r dyddiad y mae'r DLlY yn ystyried fel y dyddiad yr oedd yn ofynnol i'r DLlY roi hysbysiad am ailddechrau gweithgarwch, neu

(b) yn rhoi hysbysiad am anweithgarwch i ACC o dan adran 16A."

15 Yn adran 19 (asesu cosbau)—

(a) yn is-adran (2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) adran 16C(1).";

(b) yn is-adran (3), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(e) adran 16C(2)."

16 Yn adran 21 (gwahardd cosbi ddwywaith)—

(a) daw'r geiriau "wedi cael euogfarn am drosedd mewn perthynas â hynny" yn baragraff (a);

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder ", neu

(b) mewn perthynas â hynny, yn talu'r swm a bennir mewn hysbysiad cosb a roddir i'r person o dan adran 54 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (ac na thynnir yr hysbysiad yn ôl wedi hynny)."

17 Yn adran 26 (pwerau i wneud darpariaeth bellach neu ddarpariaeth wahanol), yn is-adran (2), ar ôl paragraff (b) mewnosoder ";

(c) Deddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00),".

18 Yn adran 38 (ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol), yn is-adran (4)(b), yn lle "gwneud hynny" rhodder "bod yn DLlY".

19 Yn Atodlen 1 (yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr), ar ôl paragraff 2 mewnosoder—

"2A Mae adrannau 11A, 16A ac 16D yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys, neu y caniateir ei chynnwys, yng nghofnod DLlY trwyddedig yn y gofrestr."

*Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (dccc 6)*

20 (1) Mae Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 12 (prif swyddogaethau ACC), yn is-adran (2A), yn lle "lety ymwelwyr)" rhodder "ddarparwyr llety ymwelwyr) a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00) (cyfeiriadur o fangreoedd llety ymwelwyr)".

(3) Yn adran 18(1) (datgelu a ganiateir), ym mharagraff (k)(ii), yn lle "adran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth 1969 (p. 51)" rhodder "Ran 2 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00)".

(4) Yn adran 172 (penderfyniadau apeliadwy), yn is-adran (2)(m) hepgorer "(gweler adran 5 o'r Ddeddf honno)".

(5) Yn adran 187B (cymhwyso i'r Goron)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 (dsc 5)" mewnosoder "a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026 (dsc 00)";

(b) yn is-adran (2), ar ôl "Ddeddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025" mewnosoder "a Rhan 4 o Ddeddf Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr (Cymru) 2026";

(c) yn y pennawd—

(i) yn lle "a'r gofrestr o lety" rhodder ", y gofrestr o ddarparwyr llety";

(ii) ar y diwedd mewnosoder "a'r cyfeiriadur o lety ymwelwyr".